# Y DINESYDD

Medi 2020 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 451




*Llun: Cliff Woodhead*



*Llun: Cliff Woodhead*



**Teyrnged i Keri Evans**
tud. 14



**Teyrnged i Ethni Jones**
tud. 15

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**David Charles**

***Golygydd Hydref***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn 27 Medi i:
manonph@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07931 214907

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Croeso i Bennaeth Newydd Glantaf



Wrth i ysgolion Caerdydd ailagor eu drysau ddechrau mis Medi, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn dechrau ar gyfnod newydd yn ei hanes – cyfnod dan arweiniad Pennaeth newydd, Matthew Evans. Croeso gwresog i chi Matthew, a phob dymuniad da i chi yn y swydd.

Mae Matthew wedi byw yng Nghaerdydd ers dros bum mlynedd ar hugain, ac yn Ddinesydd go iawn, felly, ond cyn setlo yma fe gafodd brofiadau amrywiol a diddorol.

Cafodd ei addysg gynnar yn Ysgol Gynradd Bodhyfryd, Wrecsam, ac yna Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy. Wedyn aeth i Brifysgol Caerhirfryn i ennill gradd mewn Astudiaethau Crefydd ac Eidaleg. Dilynwyd hyn gan gyfnod o dair blynedd yn gweithio fel cynrychiolydd tramor yn Ffrainc, Groeg, Sbaen a'r Eidal, cyn gwneud cwrs Ymarfer Dysgu ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Ei swydd gyntaf fel athro oedd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw ym Mhontypŵl, lle treuliodd wyth mlynedd eithriadol o hapus fel Pennaeth Adran a Phennaeth Bl 7 a phontio Cynradd > Uwchradd.

Wyth mlynedd arall, wedyn, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, lle bu’n Bennaeth Adran, Pennaeth y Chweched Dosbarth ac, ar y diwedd, yn Bennaeth Cynorthwyol. Dilynwyd hyn gan ddwy flynedd fel Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Garth Olwg.

Yn 2011 cafodd Matthew ei benodi yn Bennaeth Ysgol Gyfun Ystalyfera, ac yn y naw mlynedd ers hynny bu’n goruchwylio dros ddatblygiadau mawr yn hanes yr ysgol honno. Tyfodd poblogaeth yr ysgol o 900 i dros 1,400, gan ddatblygu'n ysgol pob oed (3 – 18) trwy gyfuno gydag ysgol gynradd leol. Datblygiad cyffrous arall hefyd oedd agor ail gampws i'r ysgol, sef Ysgol Gymraeg Bro Dur, ym Mhort Talbot, ym mis Medi 2017. Y llynedd cafodd Matthew y pleser a’r fraint o arwain dathliadau 50fed pen-blwydd Ystalyfera, a agorwyd yn Medi 1969.

*********

Mae Matthew yn briod â Nona, sy'n olygydd yn CBAC, ac mae ganddynt ddwy o ferched, un yn y brifysgol ac un yn y chweched dosbarth. Mae'n mwynhau cadw'n iach drwy gerdded a chrwydro mynyddoedd, seiclo, yn ogystal â sgïo pan ddaw cyfle i deithio.

Wrth edrych ymlaen at ddechrau yng Nglantaf, dywedodd Matthew, “Rwy'n eithriadol o gyffrous i adeiladu eto ar enw da a thraddodiad yr ysgol hon wrth iddi gamu i'r ddegawd newydd yn ei hanes. Er gwaethaf y cyfnod clo, mae'n gyfle eithriadol o gyffrous i fwrw ati fel addysgwyr er mwyn gweithio mor hyblyg â phosib ac addasu i heriau newydd addysgu mewn cyfnod Covid ac Ôl-Covid.

Wrth ddatblygu cwricwlwm newydd i arfogi ein disgyblion ar gyfer bywydau llawn bwrlwm a chyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, edrychaf ymlaen at weithio gydag ysgolion eraill yng Nghaerdydd i hyrwyddo a hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn ehangach ac ymysg cymunedau newydd.

Mae'n bleser cychwyn y swydd hon yn y Brifddinas ymysg cymuned ysgol mor eithriadol o lwyddiannus wrth inni edrych ymlaen at gyfnod arall o lwyddiant a chyffro ym mywyd yr ysgol.”

**Croeso mawr, a phob llwyddiant!**

*Bryan James*

# Beth fydd ein hanes flwyddyn nesaf?

Bues i'n cyfrannu colofn fisol i'r Dinesydd am bum mlynedd ond mae tair blynedd wedi pasio bellach ers i'r golofn ddod i ben a rŵan yn ystod y cyfnod pryderus hwn dwy'i wedi ail-gydio yn y golofn gan obeithio bydd y cynnwys yn dal yn dderbyniol i ddarllenwyr *Y Dinesydd*.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd ar y cyfryngau enwau tri deg chwech o bobl fydd yn cael eu hanrhydeddu gan yr Orsedd pan gynhelir yr Eisteddfod yn Nhregaron y flwyddyn nesa. O'n i'n disgwyl gweld hanes y tri deg chwech yn y Western Mail - ein papur "Cenedlaethol " - ond nid oedd dim gair! Siŵr o fod pe bai'r bobl hyn yn derbyn OBE neu MBE byddai colofnau amdanyn nhw ar dudalennau'r papur hwn!

Rhaid canmol y gweisg Cymreig am eu dyfalbarhad a'u dycnwch am ddal ati i gyhoeddi degau o lyfrau Cymraeg amrywiol a diddorol bob blwyddyn, er gwaethaf y trai cyffredinol am ddarllen llyfrau gan fod cymaint o bobl bellach yn treulio oriau ar Weplyfr, Zoom, Clic, Rhyngrwyd ac ati. Felly, lleiafrif sy'n dal i fwynhau cydio mewn llyfr heb sôn am gylchgronau megis *Golwg, Barn, Y Faner Newydd, Barddas* a phapur misol *Y Cymro*. Mae 700 yn prynu'r *Dinesydd* o fis i fis ond yn ôl y cyfrifiad diwethaf mae tua 30,000



o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd a'r cyffiniau! Felly, pam does dim mwy o bobl yn darllen papur bro hynaf Cymru? Ai oherwydd bod Cymreictod llawer ohonyn nhw yn arwynebol a bod yn well ganddyn nhw ddarllen y papurau Llundeinig ac ati neu beth?

Adeg hon o'r flwyddyn byddaf yn teimlo'n ddiflas wrth feddwl am yr holl bobl ifanc galluog yng Nghymru fydd wedi dewis mynd i astudio yn Lloegr yn hytrach na chryfhau Cymreictod ein sefydliadau addysgiadol yma yng Nghymru - tra bydd cannoedd o Saeson ifanc yn heidio i'n colegau ni. Yn aml ar ôl astudio yn Lloegr, bydd llawer o'n pobl ifanc yn ffeindio gwaith yna a byth yn dychwelyd i gyfoethogi bywyd Cymru - ac ar y llaw arall bydd llawer o'r Saeson ifanc yn dewis aros yn ein plith wedi dyddiau coleg. Rhyfedd o fyd!

Mae'r haint felltith wedi rhoi tolc sylweddol yn ein bywydau ac ar hyn o bryd mae hi'n anodd gwybod pryd y daw pethau'n well ac ar ben yr haint mae problem BREXIT yn codi ei ben hyll unwaith eto ac felly pwy a ŵyr beth fydd ein hanes y flwyddyn nesa. Diflas oedd gorfod colli Eisteddfod yr Urdd, Tafwyl, Eisteddfod Llangollen, Y Sioe Amaethyddol a'r Eisteddfod yn Nhregaron eleni a dim ond gobeithio y daw cyfle i'w cynnal eto yn 2021.

Rhaid canmol dyfeisgarwch pobl wrth drefnu digwyddiadau amgen i lanw'r bwlch mawr yn ein bywydau fel Cymry ac mae hyn wedi bod o fudd i godi ein calonnau a rhaid rhoi seren aur i'n Sianel Deledu Cymraeg am eu harlwy yn ystod y cyfnod diflas hwn. Mae clod yn ddyledus hefyd i Radio Cymru am ei harlwy hithau.

# Pandemig 1918 yn un o Bentrefi Cymru

Roedd y rhaglen *Pandemig 1918* ar S4C gyda'r Dr Llinos Roberts yn ddiddorol ac addysgiadol iawn. Llongyfarchiadau iddi hi.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf 'roedd fy mam Mary (Mari Cilgwynfach, ac yn ddiweddarach Mrs Jones Parcybedw) yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Oherwydd y 'Spanish flu' bu'r ysgol ar gau am fisoedd.

Gwellodd y sefyllfa, a gan mai *Midsummer Night's Dream* gan Shakespeare oedd un o'r dramau i'w hastudio ar gyfer y *Senior*, daeth cwmni drama i'r neuadd bentref i'w pherfformio. 'Roedd y lle yn orlawn.

Cyn diwedd yr wythnos ganlynol 'roedd nifer o drigolion y pentref wedi marw o'r salwch – yr ail don o'r ffliw.

Bu mam yn wael ond, efallai gan ei bod wedi cael bwyd maethlon ar ffarm ei thadcu a'i mamgu yn Cilgwynbach, Ponttyweli, mi wellodd. Ond mi wnaeth hi byth anghofio'r salwch na'r bobol a fu farw yn y pentref.

Daeth y stori yma 'nôl i mi eleni, ac er nad yw 'Cofid 19' yr un fath a ffliw 1918, mae 'na debygrwydd. Diolchwn am ein Gwasanaeth Iechyd a'r gweithwyr allweddol sydd wedi gwneud gwaith rhagorol! Ond rhaid bod yn ofalus a dilyn cyngor y Llywodraeth yma yng Nghymru.

'Daw haul ar fryn' eto cyn bo hir gobeithio.

*Sally Evans*

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Byd Natur Gethin

## *Croeso i'n Colfonydd Newydd*



### Gethin Jenkins-Jones

Does dim amheuaeth y bydd 2020 yn flwyddyn gofiadwy. Ond, ynghanol yr holl newyddion drwg mae'n gysur i glywed bod y cyfnod clo wedi cynnig cyfle gwell i bobl i fynd allan i fwynhau a gwerthfawrogi byd natur. Yn wir, gyda chyfyngiadau yn parhau ar fywyd cymdeithasol, mae'r cyfle i ddarganfod llefydd newydd yn well nag erioed. Mae gan Gaerdydd nifer o leoliadau hardd sy'n gymharol wyllt, ac un o fy ffefrynnau yw Fferm y Fforest.



Gwarchodfa natur ger Yr Eglwys Newydd yng ngogledd Caerdydd yw Fferm y Fforest, sydd heddiw yn cynnwys cymysgedd o wlypdiroedd, pyllau â chuddfannau, coedwig a chaeau. Mae'r safle wedi rhoi mwynhad i mi a miloedd o bobl dros y cenedlaethau gan ei fod yn lle da i gael seibiant o fywyd prysur y ddinas. Yn ei blentyndod, dyma ble fagodd y naturiaethwr enwog, Ronald Lockley, ei gariad at fyd natur. Aeth Lockley yn ei flaen i sefydlu gwylfa adar gynta'r byd ar Ynys Sgogom yn Sir Benfro ym 1933 ac mae hanes ei fywyd cynnar, a'i anturiaethau ym myd natur o amgylch Fferm y Fforest a Chamlas Morgannwg, i'w weld yn ei lyfr *The Way to an Island.*

Yn ogystal â'i wyrddni, mae presenoldeb darn o hen Gamlas Morgannwg yn cynnig atgofion o hanes diwydiannol y ddinas. Fe'i hadeiladwyd yn yr 1790au i gludo dur a glo o'r cymoedd i Gaerdydd. Yn ei hanterth, ymestynnodd dros 25 milltir, ond diflannodd rhan fwyaf ohoni yn fuan wedi i gludo glo a haearn ddod i ben arni yn yr 1940au, a heddi y darn yn Fferm y Fforest yw un o'r ychydig i oroesi. Wrth gwrs, mae'r cynefinoedd wrth ymyl y gamlas wedi newid ers hynny, ond yn ystod y degawdau diwethaf mae'r safle wedi'i addasu i gynnal bywyd gwyllt na fyddai wedi goroesi yng nghyfnod diwydiannol y safle. A diolch i'r amrywiaeth o gynefinoedd, mae yna fywyd gwyllt i fwynhau ar y warchodfa trwy gydol y flwyddyn.

Fferm y Fforest yw un o lefydd gorau'r wlad i weld glas-y-dorlan, sy'n aml yn hela pysgod yn y gamlas neu yn y pyllau ger y cuddfannau. Gaeaf yw'r cyfnod gorau i weld yr aderyn hwn gan fod gormod o ddŵr yn yr Afon Taf iddynt i bysgota yn llwyddiannus bryd hynny. Mae'r warchodfa hefyd yn lle da i fynd â'r teulu i fwydo'r hwyaid, sydd ar eu mwyaf niferus yn y gaeaf. Os ydych am wneud, byddwn yn argymell bwydo â hadau yn hytrach na bara, sydd, mewn gormodedd, yn gallu effeithio ar iechyd yr adar. Mae misoedd y gaeaf hefyd yn dda i fwydo'r adar bach, yn enwedig ar ôl iddi rewi neu wedi eira. Gyda'r oerfel yn peryglu eu bywydau, daw'r adar i fwydo yn agosach atoch, a daw rhai ohonynt i fwydo o'ch llaw hyd yn oed.

Yn y gwanwyn mae'r warchodfa yn dod yn fyw efo sŵn Côr y Wîg (corws y wawr) ac, i mi, hwn yw fy hoff gyfnod o'r flwyddyn. Yn y goedwig bydd siawns i glywed drymio unigryw cnocell y coed neu nodau cerddorol hyfryd y fronfraith, ac ar y gamlas fe welwch chi hwyaid bach yn rhedeg ar draws y planhigion dŵr. Yn y pyllau bydd llyffantod yn ymgasglu, gan ddenu crychydd neu ddau yno i'w hela. Yn hwyrach yn y tymor, gallwch hefyd weld sawl pâr o deloriaid-y-cyrs o'r cuddfannau. Mae'r rhain wedi mudo'r holl ffordd o wledydd is-Sahara i gyrraedd yma. Er bod y warchodfa yn fwy tawel yn yr haf, mae sawl rhywogaeth hyfryd o bili palod i'w mwynhau ar y warchodfa, a gallwch hefyd weld sawl gwas-y-neidr yn gwibio ar hyd y gamlas.

Mae yna bethau i'w mwynhau wrth iddi nosi hefyd. Mae llwynogod yn aml yn cael eu gweld yn trotian ar hyd y llwybrau a'r caeau, ac ar nosweithiau mwyn mae modd gweld ystlumod yn hedfan rhwng canghennau'r coed. Os ydych yn lwcus gallwch hefyd glywed galwadau tylluanod, yn enwedig ym misoedd yr hydref pan maen nhw'n sefydlu tiriogaethau newydd.

Eleni yn fwy nag erioed, mae'n bwysig iawn blaenoriaethu ein lles corfforol a meddyliol. Er bod sawl ffordd o wneud hynny, mae dianc o'r penawdau newyddion i fynd allan i ymweld â llefydd newydd fel Fferm y Fforest yn sicr yn un ffordd o godi'n hwyliau yn y cyfnod anodd hwn.

***Lluniau : Cliff Woodhead***

# Pobol y Rhigwm

Y dasg y tro diwethaf (tasg 35) oedd gweithio limrig yn cynnwys y llinell 'Pan fydd y pandemig 'ma heibio.' Daeth cannoedd o gynigion i law, a dyma gyhoeddi'r goreuon isod, mewn rhyw fath o drefn teilyngdod:

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
I'r coleg yr af, wrth freuddwydio;
Mynd nôl i ga'l brêc
Ond O! 'na fistêc – '
Brechiad 'Smallpox' a phawb eto'n ciwio!!

*Man Gwyn Man Draw?!!*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
A gofid 'rhen Govid yn cilio,
Wedi diosg fy mwgwd
Fydd llofruddio'n troi'n 'ffrwgwd'?
Ai 'mond sibrwd fydd gwaedd fy mhrotestio?

*BLM*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio,
Medd Wil, "Rwy'n troi'r ddalen drosto."
Gofynnodd i Gwawr,
"Be welaist ti nawr?"
"Gwelais foch mawr yn hedfan, draw fan 'co."

*Y Sinig*

Pan fydd y pandemig 'ma heibo
Fe gariaf ymla'n i freuddwydio
Na ddaw e yn ôl,
A fi'n ennill stôl
Yn Nhregaron, os byddwn ni yno!!

*Mewn Gopeth*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
Ai'n rhydd ac yn rhwydd gawn ni rodio?
Er yn ddigyfyngiadau,
Dan chwerw glo dagrau
Ni chaiff y galarwyr anghofio.

Y *Realydd*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
A bywyd yn braf unwaith eto
Cawn gwrdd â chyfeillion
A chwtsho ein hwyrion
A chofio y rhai na ddaeth drwyddo.

*'r'*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
A phawb eto'n rhydd i gofleidio,
Am ba hyd yr erys
Y cof am yr enfys
Yn y blys am ailgydio'n y joio?

*Dai Bach 1*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
A phawb unwaith eto'n cofleidio,
Bydd yffarn o le
I lawr yn y dre –
A chyfle i'r Cofid ailgydio.

*Dai Bach 2*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
A bery'r consyrn a'r cysuro?
Godwn law ar ddieithriaid?
A chlapo doctoriaid?
Oes rhaid i bob heintiad edwino?

*Gobeithiol*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio
Bydd gwraig Siôn a'i bryd 'to ar wario.
Bydd hi am 'outfit' newydd,
A hwylio'r Iwerydd:
Bydd Siôn yn cael haint unwaith eto.

*Y Cybydd*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio,
Mi fydda i'n rhy fusgrell i arddio,
Yn rhy dew i gerdded,
Yn rhy walltog i weled,
Ac â sied llawn limrigau i'w twtio.

Y *Rhigymwr*

Pan fydd y pandemig 'ma heibio,
A phob cnap yn y sgytl yn sheino,
Un orchwyl ddihafal
Na chaiff mwy ei hatal:
Cael dal Idris bach unwaith eto.

*Tad-cu*

Mae limrig sydd heb ei fydryddu'n iawn yn gallu swnio'n gloff, felly mae'n werth darllen y cynnyrch yn uchel i wneud yn siŵr fod y rhythm a'r acennu'n iawn i'r glust. Mae ergyd y llinell glo gymaint cryfach os bydd yr hyn sy'n arwain ati'n dilyn y patrwm rheolaidd. Hefyd, rhaid wrth ergyd yn y llinell glo, rhyw fath o jôc neu chwarae ar eiriau, rhag i'r limrig syrthio'n fflat. Dyma sy'n nodweddu'r limrigau cyntaf, eiddo Man Gwyn Man Draw, BLM, Sinig, Mewn Gopeth, a'r Realydd.

Mae mydr 'r' yn iawn, ond dyw'r ergyd ddim cystal ag yn limrig Tad-cu, er mai dweud yr un peth y maen nhw yn y bôn. Digon derbyniol yw limrigau Dai Bach 1 a 2, a Gobeithiol ond bod angen mwy o gic yn y llinell glo. Limrig hen deip sy gan y Cybydd, a'r wraig afrad yn gwario arian y cybydd o ŵr; hoffais yr ymadrodd gorllewinol 'cael haint' yn y llinell glo. Doniol yw cynnig y Rhigymwr, er bod y mydr ychydig yn gloff.

Fodd bynnag, eiddo Tad-cu yw'r gorau yn fy marn i, a'i limrig annisgwyl. Thema sydd wedi codi droeon mewn talyrnau a cherddi'r cyfnod clo yw bod Tad-cu a Mam-gu (neu Nain a Taid) heb allu cofleidio'r wyrion, a hynny'n fwy o ofid na'r feirws ei hun. Mae'n ddiweddglo annisgwyl ar ôl sôn am y gorchwylion diflas y bu'n rhaid eu gwneud drwy'r cyfnod clo. Llongyfarchiadau i Tad-cu; mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf.

**Enillydd tasg rhif 35 yw**
**Dr Phil Ellis, Penylan**

Y dasg erbyn y tro nesa fydd limrig yn cynnwys y llinell 'Mae'n rhaid mod i'n dechrau heneiddio'. Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn 18 Medi 2020.

***Emyr Davies***

# Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg

Bu'r gwyliau Haf hwn yn un diddorol i'r ddwy Fenter i ddweud y lleiaf! Mewn cyfnod o newid cyson, roedd yn sialens ac yn her wrth i ni addasu ein gwasanaethau a'n gweithgareddau i ddygymod â rheolau cyfredol a chyfnewidiol Covid-19.

Testun balchder i'n gweithlu gofal plant oedd eu cyfraniad i glybiau gwyliau 'Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol' Cyngor Caerdydd ddechrau'r Haf. Roedd y sesiynau cyfrwng y Gymraeg hwyliog hyn yn hynod werthfawr i nifer fawr o deuluoedd y ddinas. Roedd yn bleser derbyn adborth llawn canmoliaeth gan y Cyngor. Aeth nifer o'r staff ymlaen i ddarparu pythefnos arall o ddarpariaeth chwarae agored yn ein sesiynau BWRLWM mewn parciau, ysgolion a chlybiau chwaraeon ar hyd a lled Caerdydd a'r Fro. Roedd y sesiynau yn llwyddiant mawr, gydag oddeutu 140 o blant yn mynychu a mwynhau cymdeithasu gyda'u ffrindiau yn y Gymraeg bob dydd - a nifer o'r plant heb ymwneud â'r Mentrau o'r blaen yn ymuno yn yr hwyl am y tro cyntaf!





Cawsom hefyd lwyddiant gyda'n cyfres o weithgareddau gwyliau – sesiynau o bob math oedd yn cymryd lle ar *Zoom* ac yn gweld arbenigwyr o wahanol feysydd yn cynghori, rhannu tips ac ambell gyfrinach o ofal beic, i bobi, ac o golur i arddio i ddarlith am y Gymraeg ym Mro Morgannwg! Roedd rhai o bob oedran yn ymuno ac rydym yn falch iawn o fod wedi cynnig rhywbeth at ddant pawb.

Allwn ni ddim crynhoi uchafbwyntiau'r Haf heb grybwyll Tafwyl, a'r flwyddyn hon, cafodd set Al Lewis a fideo uchafbwyntiau'r ŵyl daith ymhell dros y môr i America, ac ymddangos yng Ngŵyl Werin Philadelphia, oedd hefyd yn cael ei ddarlledu yn ddigidol i filoedd o gefnogwyr ledled y byd fwynhau!

Cadwch lygad allan am ein darpariaethau amrywiol ar gyfer yr Hydref fydd yn cael eu cyhoeddi fis Medi!

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn y *Western Mail* (Awst 15) darllenais gyhoeddiad marwolaeth. Dyma ran o'r cyhoeddiad:

**Capten Jan Borysiewicz**

Yn dawel yng Nghartref Yr Hafod, Aberteifi, Ddydd Sul, Awst 9, 2020 Capten Jan, gynt o 8 Heol-y-Graig, Aberporth a 7 Ball Road, Llanrumney, Caerdydd yn 101 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Zofia, tad cariadus Leszek a Lilianna, tad-yng-nghyfraith parchus Gwenllian a Dafydd, tadcu tyner…..hendadcu hoffus…..

Beth yw'r diddordeb yma i mi? Y cyfenw yn bennaf i gychwyn a'r cyfeiriad at Lanrumney yng Nghaerdydd. Flynyddoedd yn ôl pan oeddwn yn ymchwilio i hanes gwyddonwyr Cymru cefais sgwrs gyda chyn-gydweithiwr, Gareth Evans, a holi am ei brofiad yn bennaeth gwyddoniaeth yn Ysgol Uwchradd Caerdydd (*Cardiff High*). Dwedodd Gareth, 'y disgybl disgleiriaf a ddysgais erioed oedd Leszek Borysiewicz; doedd neb yn gallu dweud ei enw'n iawn, felly 'Les' oedd e' i bawb. Roedd e'n byw yn Llanrumney, ymhlith cymdeithas o Bwyliaid'.

Wrth ddarllen am farw Jan, meddyliais, 'Tybed?' Does gen' i ddim tystiolaeth sicr, ond mae'r tebygolrwydd yn drawiadol.

Dirgelwch arall yw pam mae'r cyhoeddiad yn y Western Mail yn y ddwy iaith. O ble daeth y Gymraeg? Tybiaf fod hyn wedi dod o Gwenllian (gwraig Les) a Dafydd, brawd Gwenllian.

A derbyn bod fy nyfaliadau yn gywir, beth yw hanes Leszek ar ôl Ysgol Uwchradd Caerdydd? Graddiodd yn feddyg yng Nghaerdydd; nid oedd ganddo ddiddordeb mewn dilyn cyrsiau yn Oxbridge neu efallai nad oedd ei fagwraeth gartref yn hybu hynny. O hynny ymlaen fe ddisgleiriodd mewn sefydliadau enwog yn Lloegr ac ennill anrhydeddau lu. Ei swydd cyn ymddeol oedd Is-ganghellor Prifysgol Caergrawnt. Yn 2001 dyrchafwyd ef yn farchog, yn gydnabyddiaeth o'i waith ymchwil nodedig ar frechlynnau (vaccines). Tybed a ydy'r ymdrechion sy'n cael eu cynnal yn y cyfnod anodd hwn parthed brechlyn yn erbyn Covid-19 yn defnyddio gwaith Leszek o Lanrymni?

Mae rhifyn 93 o *Advances Wales* wedi cyrraedd, ar-lein yn unig am y tro. Da gweld bod nifer o sefydliadau yng Nghymru yn cynnal gwaith ymchwil i agweddau ar natur Covid-19 a dulliau o wrthsefyll. Gwelais gyfeiriadau at ymdrechion ym Mhrifysgolion Bangor, Abertawe, De Cymru, yn aml mewn cydweithrediad gyda diwydiannau. Diddorol oedd darllen am waith y cwmni *OrthoClinical Diagnostics* ym Mhenybont.

*Neville Evans*



# Cadair i'r Prydydd Coch

Mae bardd o Gaerdydd wedi ennill Cadair Eisteddfod y Rhondda. Hwn oedd y tro cynta i'r Eisteddfod gael ei chynnal ac roedd y seremoni gadeirio ar Awst 28 ar Facebook.

Y bardd buddugol yw Martin Huws, Y Prydydd Coch, a'r gofynion eleni oedd cerdd neu gasgliad byr o gerddi yn y mesurau caeth neu rydd heb fod yn fwy na 35 o linellau ar y testun 'Protest'. Noddwyr y gystadleuaeth oedd Cymdeithas Gymraeg Treorci.

"Mae'r gerdd am ddigwyddiadau greodd argraff fawr arna i pan o'n i yn y chweched dosbarth," meddai Martin. "Ar un adeg roedd 6,000 o fyfyrwyr yn herio 1,500 o *gendarmes* ar strydoedd Paris cyn i'r economi ddod i stop am fod 10 miliwn o weithwyr ar streic."

Dywedodd y beirniad, Osian Owen, fod 13 wedi cystadlu. "Mae gan Y Prydydd Coch lais aeddfed a meistrolgar ac mae'r dweud yn eithriadol o grafog a'r defnydd o'r gynghanedd yn ddyfeisgar a hyblyg.

"Yn sicr, mae'r llinellau'n llorio'r darllenydd ar fwy nac un achlysur ac mae'n gerdd grefftus a gorffenedig, yn gerdd soffistigedig iawn.

"Llongyfarchiadau enfawr i'r Prydydd Coch."

Mae Martin wedi ennill cadeiriau a choronau mewn eisteddfodau taleithiol a lleol ac wedi cyhoeddi dwy nofel a dwy gyfrol o straeon byrion. Fe ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Gwobor Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint yn 2007 ac yn ail yn y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn 2017.

Roedd yn un o ohebwyr cynta *Golwg* pan sefydlwyd y cylchgrawn yn 1988 cyn gweithio i'r *Western Mail*, *Y Byd ar Bedwar, Taro Naw* a *Cymru'r Byd.*

Aeth i Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd ac mae ei ddyled yn fawr, meddai, i'r athro Cymraeg, Elvet Thomas, a'r athro Ffrangeg, Ted Poole.

Dyma'r gerdd fuddugol:

**Protest**

*Mai 1968*

Yn ein siacedi Wrangler trwsiadus
sychedwn am bob diferyn o'r stori
wrth lynu at sgrin.

Dwyfol yw'r sasparela ar dafod.
Sïa'r ddiod
fel nwy dagrau ar y Boulevard Saint Michel.

Lapia menyw ifanc ei chariad
yn amdo hen got law fochedd.
Ar ben mae ei byd. Cafodd ei fwrw'n bedwar.

Ai dig'wilydd yw de Gaulle?
Ddaw i ben ei fytholeg wrth i'w deyrnas wegian?

Uwchben Paris
llwythog yw'r nen wa'th wylo seiren syn.
Cyn gorffwys heria'r myfyrwyr y cŵn gorffwyll
a haid ddihidio
sy'n brysur fel tŷ'n ferw o bryfed.

Weithiau daw taranfollt,
penglogau'n gnau'n hollti.

Ninnau'n gwylio swigod ein delfrydiaeth
yn pefrio
yn ein gwydrau gloyw.

Ond bydd y tân yn is
pan fydd siapiau sinistr arholiadau'n nesáu.

---

## *Annwyl Olygydd*

Ry'm ni dros hanner ffordd drwy 2020, ac mi fydd yn flwyddyn i'w chofio. Un ystyr i "20/20" yw golwg arbennig o dda drwy ein llygaid – ond 'does neb o'r bobl bwysig wedi medru rhagweld y dyfodol wrth i'r pandemig Cofid amharu ar bob un o'n bywydau dros y misoedd diwethaf.

Mae'r bobl ifainc wedi dioddef yn enfawr gyda diffyg trefnu canlyniadau arholiadau eleni.

Mae'r Byrddau Iechyd Cenedlaethol wedi dioddef dan straen problemau annisgwyl na welwyd ei debyg. Ry'n ni mor ddiolchgar am y gofal, ac yn teimlo'n flin dros y gweithwyr a gollodd eu bywydau gan gydymdeimlo yn arbennig gyda phawb sy wedi colli ffrindiau a pherthnasau.

Mae'r sefyllfa ariannol yn hynod o drist. Mae cymaint wedi colli eu swyddi, a llawer yn dioddef sefyllfa ariannol bersonol erchyll. Mae pobl ifainc yn dioddef yn fawr, a byddant yn treulio llawer o flynyddoedd yn ffeindio swyddi addas!

Mae sawl peth arall hefyd sy'n mynd i achosi i ni gofio'r flwyddyn 2020. Mae sefyllfa Brexit wedi mynd allan o'n meddyliau gyda'r holl ofid iechydol ond mi ddaw i weithredu - da neu ddrwg – ar ddiwedd y flwyddyn.

Serch hynny - blwyddyn i ddiolch yw hon mewn un ffordd. Bedair gan mlynedd yn ôl – 1620 bu digwyddiad mawr yn hanes Cymru, a chyhoeddwyd y Beibl Cymraeg cyntaf. Yn 1588 cawsom y cyfieithiad cyntaf o'r Beibl cyfan gan gynnwys yr Apocryffa – gan yr Esgob Wiliam Morgan. Yn fuan wedi'r cyhoeddi dechreuodd yr Esgob ddiwygio'r cyfieithiad ond bu farw ar 10fed Medi 1604. Cyhoeddwyd y fersiwn ddiwygiedig ym 1620, a'r copi diweddaraf ohono yn 1988. Yr argraffiad o'r Beibl yn 1620 yw'r un gafodd ei ddefnyddio fwyaf yn Gymraeg dros y 400 mlynedd diwethaf.

Erbyn hyn, ry'n ni wedi derbyn diwygiad hollol newydd – y Beibl.net. Treuliodd Arfon Jones dros 20 mlynedd yn cyflawni'r gamp orchestol hon. Ry'n ni'n ddiolchgar iawn am gyfieithiad cyfoes a darllenadwy o'r Beibl, er gwaetha'r print mân.

*Heulwen Cooper, Y Barri*

# Colofn Hannah

*Mis Medi*
*"Y llwyni cnau yn llawnion – afalau*
*Filoedd yn fochgochion;*
*Brithwyd y berth hyd y bôn*
*Yn dew gan fwyar duon."*
*Isfoel*



**Oti, - mae'n Fedi eto,**
**Medi - nid mis y Clo ond mis y Cau.**

Wel, gan bo fi 'di gwitho oferteim i gynhyrchu rhifyn egstra Mis Awst, gaiff yr Hen Feddygyniaethe sbel fach nawr am fish, ac fe af ar drywdd arall. Er, fydde'n well 'da fi 'se'n i ddim yn gorffod sôn am hyn, achos mae'n creu tristwch. Dyma'r mish pan fydd darlledu o BH Llandaf yn dod i ben. Dyma ddiwedd cyfnod wedi dros hanner can mlynedd.

Fe ddetho i i Ga'rdydd yn 1964,ac agorwyd y BBC flwyddyn yn ddiweddarach.

Ma gas 'da fi feddwl am hyn, achos 'dw i 'di mynd miwn a mas o'r hen adeilad am ddeugain mlynedd namyn un, timlo bo fi'n ran o'r brics a'r morter.

Mor od fydd drifo lawr Hewl Llantrisant a'r tair llythyren wen ar gefndir coch ddim 'na.

Mor od fydd Mis Tachwedd o hyn 'mla'n heb wyneb y Tedi Bêr mawr yn gwenu arno ni ac yn chwifio pawen, yno i blant mewn angen.

Fe ddechreues i droedio coridorau yn 1981 ar ôl dychwelyd i Ga'rdydd o Fangor, wedi bod yn gwitho 'da Cwmni Theatr Cymru. Fe ymunes i â'r Adran Gyflwyno, gyda Menna Gwyn yn *fos* arno ni, ac yn y dyddie pell yn ôl 'ny, o'dd Radio Cymru a Radio Wales gyta'u gilydd, a fydden i'n cwpla shifft 'da R C, ac yna neido miwn i stiwdio R Wales drws nesa i ddarllen y bwletin Sisneg. O'n i'n joio'r gwaith, o'dd pawb yn napod pawb. Rhydd gyfrannwr o'n i, a withe, fydden i wedi neud diwrnod o ddysgu lan yn y Rhondda yn Ysgol Gymra'g Bodringallt, yna, am betwar o'r gloch pyrt hynny, neido miwn i'r car, a drifo lawr i Ga'rdydd, a mynd yn syth i'r BBC i ddarllen bwletin Post Pynhawn, a dechre shift 5 or gloch hyd at hanner nos. Wetyn, mynd tsha thre, a chwni 'to yn y bore a drifo lan i'r Rhondda i'r ysgol! Beth o'dd bod yn ifanc!!!!

Dyna fu'n batrwn gwaith i am bum mlynedd. Withe, fydde'n rhaid ifi neud y shifft gynnar, sef mynd miwn erbyn 5 o'r gloch y bore i acor y rhwydwath am 6.00.

O'n i'n neud 'ny drwy whare'r gân 'Pan own ni ar foreddydd'.

Pryd 'ny, o'dd R C yn dod mas o Radio4 am 6.00 y bore ac yn darlledu nes 6.00 y nos, yna nôl i R4 gyda'r *Pips* cyn *R4 News*, a o'dd RHAID stopo siarad cyn rheiny, ne fydde'r byd ar ben!!!!! Y dywediad o'dd "Paid byth a crasho'r *Pips*".

Un nosweth, a finne newydd ddechre fel rhydd gyfrannwr, o'dd hi yn sŵn 6 o'r gloch, jest cyn y *pips* melltigetig miwn i newyddion R4, a o'n i wedi neud un ne ddou *FFLUFF* fel o'n i'n galw *mistêcs.* A o'n i ddim yn hapus! Wel, tra o'dd bwletin R4 yn ca'l ei ddarllen, wetes i wrth y technegydd 'r ochor arall i'r gwydr *"That was awful"* a dyma arswyd yn dod dros ei wyneb, a llaish yn y nglust *"CLOSE THE ***** MEIC!!!!!"* Etho i'n Ô'R!!! achos a'th y geire na ar draws Prydain, ac ynghanol newyddion R4! Beth glywyd o'dd hyn *"And the prime minister Margaret Thatcher said;"* - (sa i'n cofio yr union eirie) ond wetyn da'th y'n llais i yn gweud *"And that was awful"!!!!!*

Fues i ar y carped coch am hynny O do!!!

Un hanesyn arall cyn cwpla, a ma na lawer!

Un bore, ethoi miwn i BH er mwyn neud yn siwr o rwpeth cyn y shifft brynhawn. O'n i ddim yn mynd i fod yn hir, felly, ma fi'n parco'r car tu fas, a'i gwt at y clawdd, h.y. Hewl Llantrisant, a miwn a fi i'r dderbynfa a lan i'r stiwdio. Pan ddetho i nôl lawr, o'dd y lle fel bola buwch, y drwse ar gau, a neb yn gallu gatel. Pam? - am fod haid fawr o wenyn wedi dod o rhwle ac yn gwmwl du anferth tu fas, o'dd e fel rwpeth mas o Hitchcock! O'n nhw wedi ffonio am y *Pest Officer*.

Nawr, o'dd apwyntiad gwallt 'da fi ym mhentre Llandaf mewn cwarter awr, felly, pan ddechriws yr haid symud o ardal y drws, mas a fi, a saethu at y car ,a dechre'r injin. Os do fe!! zzzzz fe gwnws haid arall tu ôl i fi, (diolch bod y ffenestri ar gau). O'n i, chi'n gwel', wedi parco at y berth, ac yn hwnnw o'dd nyth cacwn, a beth ma mwg *exhaust* yn neud i rheiny? Ie eu gwasgaru. Wedi sylweddoli taw fi o'dd yr achos, mas a fi o'r lle fel bollt, a haid o wenyn ar fy ôl, a llu o wynepe yn y ffenestri yn wherthin. Dyna i chi wir ystyr *Buzz Off!* A son am appwyntiad gwallt, o'dd gweld yr holl fyddin na o gacwn yn ddicon i neud y'ch gwallt chi i sefyll. Yn Hydref y flwyddyn honno, ges i ran mewn cyfres deledu, a'i henw? *Nyth Cacwn*, gwetwch y gwir!!!!

Nawrte, wrth fynd miwn i'r BBC Mis Chwefror eleni jest cyn y Clo, i recordo *Dros Ginio*, drawodd e fi wrth gitsho yn y reilen i fynd lan y grisie taw falle na'r tro ola fydden i'n mynd na, -- o'n i'n iawn.

Mae cerdd er cof am yr hen BH ar dudalen 13.

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



- Mae modd i unigolion hunan gyflogedig hawlio ail grant oddi wrth Lywodraeth y DU. Dylai ymgeiswyr fynd i wefan y Swyddfa Dreth o 17 Awst 2020 ymlaen i anfon cais: https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme

- Mae tystio ewyllysiau trwy gyswllt fideo nawr yn gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr i wneud y broses yn haws yn ystod y pandemig. Mae'r mesur hwn wedi'i ôl-ddyddio i 31 Ionawr 2020 a bydd yn aros yn ei le tan fis Ionawr 2022.

- Mae'r Canghellor, Rishi Sunak, wedi cyhoeddi y bydd Bonws Cadw Swydd (*Job Retention Bonus*) o £1,000 yn cael ei dalu i gyflogwyr am bob gweithiwr ar *furlough* sy'n parhau i gael ei gyflogi'n barhaus tan 31 Ionawr 2021. Gwneir taliadau ym mis Chwefror 2021.

- Wrth i farchnad tai y wlad ddeffro o'r cyfnod clo, mae twyllwyr yn targedu prynwyr tai trwy hacio e-bost ac anfon manylion cyfrif banc ffug ar gyfer taliadau blaendal. Mae hyn wedi arwain at nifer o bobl yn colli symiau sylweddol o arian. Gwiriwch fanylion y cyfrif banc ar gyfer unrhyw daliadau sylweddol trwy ffonio'r parti arall.

**Cwestiynau Huw ac Aled:** Mae perthynas i mi wedi marw yn ddiweddar ac wedi gadael anrheg o £50,000 i mi yn ei ewyllys. Cyfanswm gwerth ei ystâd yw tua £250,000. Oes angen i mi dalu treth etifeddiaeth ar yr anrheg yma?

Mae pob unigolyn yn derbyn lwfans o £325,000 at ddibenion treth etifeddiaeth felly yn yr enghraifft yma, gan fod cyfanswm gwerth yr ystâd yn llai na'r lwfans, does dim treth etifeddiaeth yn daladwy ar yr ystâd marwolaeth na'r rhodd.

Os bu rhoddion yn ystod eu hoes, ystyrir gwerth unrhyw rhoddion o fewn 7 mlynedd o'r marwolaeth tra'n asesu'r treth etifeddiaeth sy'n daladwy.

Os oes gennych ystâd werth uchel neu gymhleth, mae cynllunio ar gyfer treth etifeddiaeth yn hanfodol gan fod cyfradd treth etifeddiaeth yn 40%.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*


## LLYFR DIGIDOL RWDLAN Y CYFNOD CLO YN CAEL EI GYHOEDDI FEL LLYFR

Mae'r awdures Angharad Tomos yn cyhoeddi llyfr newydd yng Nghyfres Rwdlan, sef *Pawennau Mursen* (Y Lolfa). Cyflwynwyd y llyfr yn ddigidol yn wreiddiol, ar ddechrau'r cyfnod clo adeg y coronafeirws, ar Ddiwrnod Rhyngwladol Llyfrau Plant (2 Ebrill). Ond bellach mae'r Lolfa wedi penderfynu cyhoeddi llyfr print o *Pawennau Mursen* – y cyntaf yn y gyfres i gael ei gyhoeddi ers wyth mlynedd.

Meddai Angharad Tomos, "Fel pawb arall, wyddwn i ddim beth i'w wneud yn ystod y dyddiau cynnar, yn methu mynd i unman, a ddim yn gallu helpu. Dywedodd fy nheulu, 'Gwna be wyt ti'n gallu ei wneud – sgwenna lyfr Rwdlan'. A dyna beth wnes. Fy ngŵr ddaeth o hyd i raglen Issuu, a bod modd cyhoeddi'r stori i'w rhannu'n ddigidol. Hogan pensel a phapur ydw i, ond dwi wedi dysgu sawl tric digidol yn ystod y cyfnod clo."

Mae *Pawennau Mursen* yn stori amserol, sy'n gweld Rwdlan a'r Dewin Dwl yn cael eu haddysgu yn y cartref gan Ceridwen, ond mae'r ddau fach wedi diflasu ac yn penderfynu chwarae tric arni. Maen nhw'n clymu balŵn i drwyn Ceridwen ac yn peintio'r bwrdd yn felyn llachar. Ac mae ôl pawennau Mursen dros y stafell ac ar gôl Ceridwen.

Mae'r stori yn llawn hiwmor a bydd plant yn medru uniaethu â'r cymeriadau yn y cyfnod anodd yma.




Ar gychwyn y llyfr, mae Angharad Tomos yn nodi bod y llyfr yma 'I blant Ysgol Maesincla, Caernarfon'. Meddai Angharad, "Dwi wedi ymweld ag Ysgol Maesincla fwy nag unwaith yn siarad am Rwdlan, ac mae'n ysgol arbennig. Wedi dilyn ei hanes ar S4C – cyn ac yn ystod Covid – nes i feddwl y carwn gyflwyno'r llyfr iddynt hwy."

Cyhoeddwyd y cyntaf yn y gyfres, sef Rala Rwdins, ddiwedd 1983. Ers hynny, mae 16 stori arall wedi cael eu cyhoeddi, gyda *'Sbector Sbectol* yr un diweddaraf yn 2012.

# CERDYN POST O LISBOA

## Lowri Haf Cooke yn holi Ceri Lloyd

*Yn wreiddiol o Riwbeina, mae Ceri Lloyd yn byw yn Lisboa ers 2016, ar ôl ymddeol yn gynnar o'i gyrfa fel athrawes yng Nghaerdydd. Mae hi'n byw yno gyda'i gŵr, Elgan (a fu'n gweithio yno gydag asiantaeth morwrol EMSA), ac maent yn rieni i Lydia a Steffan.*

Nôl ym mis Mawrth, fe benderfynais gyda fy ngŵr, i adael Lisboa dros dro ac ar fyr rybudd, er mwyn cael bod nôl adref yng Nghaerdydd, cyn i effaith yr haint ym Mhortiwgal ein rhwystro rhag teithio. Roedd e'n bwysig i ni'n dau i fod yn ôl yng Nghymru er mwyn cael bod yn agos at ein teulu a'n ffrindiau, ac er nad oeddem yn gallu cwrdd ag unrhywun, roedd cael bod yng Nghaerdydd yn hwb seicolegol ac wedi cadw ni i fynd. Byddai aros yn Lisboa a bod ar wahân o'r teulu wedi bod yn ofid i ni'n dau. Wrth fod adre, cawsom estyn croeso i'r plant (nawr yn oedolion sy'n byw ac yn gweithio yn Llundain) i fod gyda ni ac i fod yn 'gymharol ddiogel' yn ein 'nyth bach' ni. Roedden nhw ac Elgan yn cael gweithio o gartref.



Llwyddais i ymweld â Mam yn gyson wrth fynd â bwyd draw i'w thŷ, gan adael y bag siopa wrth y drws ffrynt, a siarad â hi drwy'r ffenest. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau teithio, cafodd Elgan ddim y cyfle i ymweld â'i fam yn Llandudoch tan ddeuddydd cyn i ni adael Caerdydd.

Tra gartref, roeddem mewn cysylltiad â ffrindiau ym Mhortiwgal ac fe glywon ni ym mis Mehefin fod y prif weinidog, António Costa, wedi ail-gyflwyno cyfyngiadau ym Mhortiwgal oherwydd bod rhifau Covid wedi dechrau codi'n sylweddol. Roedd yr haint wedi ail-gydio mewn mannau lle nad oedd e'n bodoli gynt, sef yn yr ardaloedd difreintiedig ar gyrion y ddinas, ymysg gweithwyr yn y diwydiant adeiladu, gweithwyr ffatri a glanhawyr. Roedd yr haint hefyd wedi dal ar yr arfordir i'r gorllewin o Lisboa, yn y trefi lan y môr, wrth i bobol ifainc ddiflasu ar fod adre a dechre cynnal partïon a *raves*. Cyflwynwyd cyfyngiadau ar y niferoedd oedd yn cael cwrdd - dim yn fwy na 10, a rheol i bob caffi i gau erbyn 8.00 yh, a hyn yn benodol yn ninas Lisboa a'r ardaloedd poblog sy'n ei hamgylchynu. Cyflwynwyd dirwy hefyd o €5,000 i unrhywun a fyddai'n torri'r rheolau.

Buom adre am bron i bedwar mis, ond ar ddechrau Gorffennaf pan gafodd Elgan ei alw yn ôl i'r gwaith, dychwelon ni i Lisboa. Fel y gwnaethom wrth deithio nôl i Gymru ym mis Mawrth, fe deithion ni nôl mewn car yn lle ar awyren, er diogelwch.

Roedd newid mawr wedi bod. Synnon ni i weld cyn lleied o ymwelwyr oedd yma. Yng nghanol y ddinas, lle roedd y strydoedd fel arfer yn llawn sŵn a phrysurdeb, roedd pobman yn dawel ac yn wâg.

Doedd dim sôn am y twc-twcs na'r sgwteri di-ri oedd yn bomio o gwmpas y strydoedd cul yn cludo twristiaid i fyny i ben y bryniau. Doedd dim gweithwyr yn dod i mewn i'w swyddfeydd.

Doedd dim llongau pleser wedi bod yn glanio ym mhorthladd Lisboa ers misoedd. Dwi'n meddwl taw dyma'r prif reswm roedd e, ac mae e'n parhau i fod yn awr, mor dawel yma.

Mae miloedd yn llai o ymwelwyr yn y ddinas. Efallai y byddai rhai o'r dinasyddion yn cyfaddef fod hyn wedi bod yn fendith, yn saib dros dro o'r llif di-ddiwedd o deithwyr sy' wedi bod yn cyrraedd ac yn heidio yn eu miloedd trwy strydoedd cilion yr Alfama, ac ar hyd rhodfa'r ribeiro Tejo ac i mewn i wres a phrysurdeb y Baixa. Cês sgwrs gyda merch dwi'n nabod sy'n enedigol o Lisboa. Dim ond pymtheng mlynedd yn ôl, meddai, roedd canol y ddinas yn lle trist a thlawd â llawer o ddiweithdra yno. Mae llawer o sgil-effeithiau negyddol yn dod gyda'r twristiaeth, ond doedd hi ddim am ddychwelyd i'r oes a fu, lle doedd dim arian na swyddi.

Mae effaith y diffyg teithwyr hefyd i'w weld ar strydoedd tref boblogaidd lan y môr Cascais. Mae'r bysus di-ri sy' fel arfer yn cludo'r ymwelwyr yno o'r llongau sy'n cyrraedd y ddinas, wedi diflannu o'r golwg. O ganlyniad, wrth gwrs, gwelir effaith andwyol ar fusnesau sy'n dibynnu ar dwristiaeth am eu cynhaliaeth. Mae nifer o dai bwyta a chaffis a hyd yn oed gwestai wedi cau, rhai am byth, a'r rhai sy' wedi llwyddo i gadw eu pennau uwchben y dŵr yn poeni am eu dyfodol.

O gymharu â bod yng Nghaerdydd, deimlon ni fod y bobol oedd allan ar y strydoedd, yn symud o gwmpas yn fwy hyderus, efallai oherwydd bod yna reolau cadarn sy'n dweud pryd a ble mae'n rhaid gwisgo mygydau. Does dim angen gwisgo mwgwd wrth fynd allan am dro, ond rhaid, ar bob achlysur, gwisgo mwgwd wrth fynd i siop neu gaffi neu dŷ bwyta. Wrth fynd i mewn, rhaid hefyd taenu hylif *anti-bac* dros ddwylo o'r poteli sy'n sefyll wrth bob mynedfa. Mae dyletswydd ar berchnogion y busnesau i gadw'r drefn yma. Mae'r sicrwydd o wybod y rheolau, a chost y ddirwy, yn golygu fod pethe'n gweithio'n effeithiol yma.

Erbyn hyn mae Prydain wedi diddymu'r orfodaeth i hunan-ynysu ar ôl dychwelyd o Bortiwgal, ac yn barod, o fewn dyddiau o'r cyhoeddiad, mae awyrennau wedi dechrau ymddangos yn amlach yn yr awyr uwchben ein fflat.

O gymharu â Phrydain, mae niferoedd y

marwolaethau Covid-19 yn isel. Yn ogystal â hyn mae rheolau atal Covid cadarn yma, felly rydan ni'n dau yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i fod yma.

O'n profiad ni, mae pobol Portiwgal ar y cyfan yn bobol iach. Maent yn bwyta'n iach ac yn cadw eu pwysau dan reolaeth. Mae llai o ordewdra ymysg y boblogaeth yma nag ym Mhrydain ac oherwydd y tywydd braf mae'n haws hefyd i gadw'n heini. Mae'n siŵr fod y ffactorau yma'n helpu gwrthsefyll, neu oresgyn yr haint.

Ar ddiwedd mis Medi, bydd Elgan yn gadael ei swydd a byddwn yn dychwelyd i Gymru. Roedd gennym gynlluniau i ymlwybro trwy Ewrop ar ein ffordd adre am rai misoedd. Ond gyda'r ansicrwydd yn sgîl Covid, rydan ni wedi penderfynu dychwelyd yn syth i Gymru, ond edrychwn ymlaen at deithio yn y dyfodol. Ar ôl deuddeg mlynedd o gysylltiad â Phortiwgal, byddwn yn drist iawn i adael.

## Y Dylluan Frech

(*Tawny owl, Strix aluco*)

Am eiliad, meddyliais fod rhywun yn chwibanu ar fy ôl, a throais yn gyflym i edrych. Yn fuan sylweddolais mai'r gwdihŵ frech oedd yn canu, ar adeg pan oedd hi'n dechrau nosi ar Heol y Tyllgoed, rhwng Ysgol Cantonian a chyn annedd Roald Dahl. Mae coedydd sylweddol wedi tyfu o gwmpas y tai moethus yn yr ardal ac mae'r habitat hyn yn gyfryngol at gynnal amgylchfyd addas i'r Dylluan Frech.

Mae'n debyg mai'r iâr, rhan amlaf, sy'n datgan y sain "cee-wick", ac mae ateb y ceiliog yn adnabyddus i bawb, wrth gwrs, sef "Hy-hy-hyhooo", gyda *vibrato* wrth ddal y nodyn hir ar y diwedd. Ar y noson mewn cwestiwn, ni chlywais ateb i'r "cee-wick".

Mae'r Dylluan Frech yn hapus yn ei chynefin coediog ond mae eisiau coed sydd â thyllau ynddynt, neu focs sylweddol, fel bod yr aderyn yn medru adeiladu nyth.

Os clywch fwy nag un gwdihŵ yn ymateb i'w gilydd mewn ardal, y ceiliogod sydd wrthi yn cystadlu â'i gilydd ac yn datgan "cadw draw boio, fi yma'n barod."

Mae'r ceiliog â'r iâr, sy'n paru am oes, yn amddiffyn eu tiriogaeth drwy'r flwyddyn, ond mae'r pwysau arnynt yn cynyddu wrth i'r hydref ymestyn, a chywion llynedd yn mynnu cael llety.

Mae Strix aluco wedi addasu yn weddol hwylus i'r amgylchedd ymylol rhwng gwlad â'r ddinas, ond fel pob aderyn gwyllt y dyddiau yma, mae eu rhifau yn gostwng.

*Tom C Jones*

*Llun: Arlunwaith gan Tom C. Jones*



## Cylchgronau'r Urdd am ddim i blant Cymru!

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cyhoeddi y bydd eu cylchgronau i gyd yn troi'n ddigidol am ddim i bawb am y flwyddyn ysgol nesaf, 2020-21. Yn ogystal, bydd cylchgrawn poblogaidd *Cip* o Fedi ymlaen yn cynnwys cylchgrawn *Mellten* o fewn y tudalennau, eto am ddim!

Mae'r Urdd wedi bod yn cynhyrchu cylchgronau ers dechrau'r mudiad ac erbyn hyn yn creu tri gwahanol – *Cip* ar gyfer darllenwyr cynradd, *Bore Da* ar gyfer dysgwyr Cymraeg cynradd a *IAW* ar gyfer dysgwyr Cymraeg uwchradd. Maent yn cael eu darllen yn eang a'u defnyddio mewn dosbarthiadau ysgolion led led Cymru.

Mae'r cyfnod diweddar wedi amlygu'r angen am gynnwys Cymraeg cyfleus a hawdd i'w gyrraedd ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn arbennig dysgwyr sydd o bosib ddim yn ymwneud â'r iaith y tu allan i'r ysgol. Bydd y tri chylchgrawn ynghyd â chynnwys ychwanegol ar y we yn golygu bod gweithgareddau a hwyl, gweithlenni a chomics ar gael yn rhad ac am ddim i bawb.




Bydd angen i bawb sydd am dderbyn y cylchgronau danysgrifio ar urdd.cymru/cylchgronau gyda chyfeiriad e-bost. Bydd y cylchgronau yn cael eu hanfon wedyn yn rhad ac ddim ar e-bost. Yn ogystal, bydd cynnwys ychwanegol ar y wefan ynghyd ag ôl rifynnau. Y gobaith yw y bydd ysgolion yn rhoi'r cylchgronau ar eu safleoedd dosbarth digidol, yn rhannu dolenni gyda rhieni a gofalwyr ac yn eu defnyddio yn eang yn y dosbarth. Bydd elfennau ee taflenni lliwio a gweithlenni yn cael eu rhoi ar y wefan hefyd er mwyn gwneud lawrlwytho ar gyfer argraffu yn haws.

Bydd y trefniant newydd yn dechrau ym Medi 2020.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



**Yr Athro E. Wyn James**

## Evan Rowland Jones, 'Y Major bach': Tregaron – Wisconsin – Caerdydd



'*For I am thinking that the name of Major [Evan Rowland] Jones will in future be regarded as one of the great names in Welsh history.*' Dyn o'r enw William Johnstone biau'r geiriau hynny, mewn cyfrol yn dwyn y teitl *The Welsh at Home: Notable Persons, Places and Incidents in South Wales* (1904). Nid oedd fawr o broffwyd, mae'n amlwg, oherwydd prin yw'r rhai erbyn heddiw sydd wedi *clywed* am Evan Rowland Jones, heb sôn am ei ystyried yn un o enwau mawr hanes Cymru. Ond yn ei ddydd roedd yn berson pur adnabyddus, a hynny ar ddwy ochr yr Iwerydd ac mewn porthladdoedd ar draws y byd.

Er enghraifft, gallai rhywun ddweud mewn papur newydd yn 1890, '*There is hardly a Welshman in the United States but knows, or has heard of Evan Jones*.' Blwyddyn yn ddiweddarach, neilltuwyd cyfarfod agoriadol Tymor 1891–92 Cymrodorion Caerdydd i gyflwyno tysteb i Lywydd y Cymrodorion, sef portread ohono gan yr arlunydd o'r Iseldiroedd, Hubert Vos, a gostiodd tua £105 – swm sylweddol iawn yr adeg honno. Yn y cyfarfod hwnnw canwyd clodydd y Llywydd gan nifer o hoelion wyth bywyd Cymraeg Caerdydd, ac yn eu plith Thomas Powel (Athro Celteg Coleg y Brifysgol), y cerddor Joseph Parry, T. H. Thomas ('Arlunydd Penygarn'), Beriah Gwynfe Evans (golygydd Cymraeg y *Cardiff Times*), y Cynghorydd Edward Thomas ('Cochfarf') a'r Barnwr Gwilym Williams. Derbyniwyd llythyrau oddi wrth Ardalydd Bute ac Arglwydd Tredegar yn mynegi gofid am eu habsenoldeb; cyfeiliwyd i'r canu gan Clara Novello Davies (mam Ivor Novello); a darllenwyd cyfarchiad barddol i'r Llywydd gan y Prifardd Dyfed (yr Archdderwydd yn ddiweddarach) ar ffurf chwech o englynion, yn cynnwys yr un a ganlyn:

> Cymro da, Cymro diwyd,— Cymro iach,
>     Cymro uchel hefyd;
> Dyn drwyddo'n Gymro i gyd,
> A'n siriol iaith a sieryd.

Ac enw'r Llywydd? Neb llai na'r Uwch-gapten Evan Rowland Jones.

Ond pwy oedd yr Evan Rowland Jones hwnnw? Brodor o Dregaron ydoedd. Fe'i ganed yno ym mis Medi 1840 yn fferm Pen-lan, ychydig i'r gogledd o ganol y dref, yn fab i William a Mary Jones. Mary Rowland oedd enw ei fam cyn priodi a dywedir ei bod yn perthyn i deulu'r pregethwr Methodist nerthol o'r 18fed ganrif, Daniel Rowland, Llangeitho. Ar ochr ei dad, ymddengys fod Evan yn perthyn o bell i Thomas Johnes, a drodd stad yr Hafod ger Cwmystwyth yn niwedd 18fed ganrif yn enghraifft wych o dirwedd yn arddull y mudiad *picturesque*, ac – imi gael 'datgan budd'! – yr oedd hefyd yn perthyn i mi o bell, oherwydd roedd ei dad ef a'm hen hen fam-gu yn frawd a chwaer.

Bu farw ei dad pan oedd Evan yn chwe mlwydd oed. Ailbriododd ei fam, ond cododd tensiynau ar yr aelwyd yn sgil hynny. Roedd Evan yn gymeriad anturus ac egnïol, hytrach yn fyrbwyll, ac yn dipyn o ramantydd; a'r diwedd fu iddo adael Tregaron am America yn 15 mlwydd oed. Roedd fy hen dad-cu, David James, yn gariwr, ac yn ôl y traddodiad yn fy nheulu, dihangodd Evan o Dregaron yng nghert fy hen dad-cu, a oedd yn gefnder iddo. Teithiodd yng nghwmni teulu un o'i ffrindiau ysgol, gan hwylio gyda nhw o Lerpwl ar y llong *John Bright* a chyrraedd Efrog Newydd ym mis Gorffennaf 1856. Y cam olaf, wedyn, oedd teithio tua'r gogledd-orllewin nes cyrraedd glannau Llyn Michigan a thalaith Wisconsin.

Cynyddodd poblogaeth Wisconsin yn sylweddol yn ystod yr 1840au, gymaint felly nes iddi ddod yn 30fed dalaith yr Unol Daleithiau yn 1848. Gwelwyd nifer o Gymry ymhlith yr ymfudwyr yno yn yr 1840au, ac erbyn yr 1850au roedd Wisconsin wedi dod yn un o brif gyrchfannau'r Cymry yn America. Erbyn yr 1870au, er enghraifft, amcangyfrifwyd fod dros 18,000 o Gymry a'u disgynyddion yn byw yn y dalaith, llawer ohonynt yn y de-ddwyrain yng nghyffiniau Milwaukee a Racine.

Ar ôl i Evan Rowland Jones gyrraedd Wisconsin, bu'n gweithio am ychydig yn y cynhaeaf yn ardal

Waukesha, un o gymdogaethau Cymreiciaf y dalaith, tua ugain milltir i'r gorllewin o Milwaukee. Ond erbyn hydref 1856 roedd wedi symud i Milwaukee ei hun, yn glerc mewn siop groser yn yr ardal fasnachol rhwng Afon Milwaukee a Llyn Michigan, nid nepell o gapel y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig.

Byddai gan Evan ddiddordeb byw mewn gwleidyddiaeth ar hyd ei fywyd, ac fe welwn hynny yn y cyfnod cynnar hwn, oherwydd yn 1860 daeth yn Ysgrifennydd y 'Welsh Republican Club of Milwaukee' a ffurfiwyd y flwyddyn honno. Roedd Wisconsin yn un o gadarnleoedd cynnar y Blaid Weriniaethol – plaid a grëwyd yn 1854 yn rhannol er mwyn gwrthwynebu lledu caethwasiaeth yn y Taleithiau, a phlaid a oedd yn eithaf gwahanol i'r hyn ydyw erbyn heddiw! Dyna blaid Abraham Lincoln, ac roedd Evan Rowland Jones yn frwd ei gefnogaeth i Lincoln yn yr etholiad arlywyddol a enillodd yn niwedd 1860. Ond yn fuan wedyn, yn Ebrill 1861, dechreuodd y Rhyfel Cartref.

Ymatebodd Evan ar ei union, bron, i alwad Lincoln am wirfoddolwyr i ymuno â byddin y Gogledd 'i achub yr Undeb', er y byddai Evan yn pwysleisio yn ei ysgrifeniadau mai ymladd yn erbyn caethwasiaeth oedd y prif ysgogiad iddo ymuno. Fel llawer o'i gyd-Gymry, casâi gaethwasiaeth â chas perffaith: peth 'barbaraidd' a 'gwenwynig' ydoedd, meddai, a daflai gysgod tywyll dros y wlad. Cafodd ychydig o anhawster i gael ei dderbyn i'r fyddin am ei fod o dan oed a hefyd am ei fod yn fyr iawn – fe'i disgrifiwyd gan rywun yn 1894 fel '*greatly undersized […]. The heavy moustache and the over-coat which he invariably wears, combine to take off somewhat of his physical insignificance.*' Ond fe'i listiwyd yn y fyddin ar 10 Mai 1861.

Fel yr awgryma teitl ei gyfrol sylweddol, *Four Years in the Army of the Potomac: A Soldier's Recollections* (1881), treuliodd y rhan fwyaf o'i gyfnod yn y fyddin yn y De, ac yn nhalaith Virginia yn arbennig. Bu'n ymladd mewn sawl brwydr arwyddocaol, gan gynnwys Gettysburg, a derbyniodd ganmoliaeth a dyrchafiadau oherwydd ei ysbryd mentrus a dewr – er bod ei alw '*a hero of Gettysburg*', fel a wnaeth un hanesydd rai blynyddoedd yn ôl, yn ormodiaith braidd; ac felly hefyd y pennawd mewn papur newydd yn nhalaith Efrog Newydd adeg ei farw yn 1920, '*Major Jones, Friend of Lincoln, Dies In London*', ac yntau ond wedi siarad â Lincoln unwaith yn ei fywyd!

Ar ôl y rhyfel, dychwelodd Evan i fyd busnes yn Milwaukee, yn berchennog ei siop groser ei hun erbyn hynny, ond fe aeth ei yrfa o nerth i nerth yn y blynyddoedd wedyn oherwydd ei gysylltiadau gwleidyddol, masnachol a milwrol. Daeth ei hen bennaeth yn y fyddin yn Ysgrifennydd Gwladol Wisconsin ac yn sgil hynny cafodd Evan ei benodi i swydd dan y llywodraeth yn Madison, prifddinas y dalaith, yn 1868 a'r flwyddyn wedyn fe'i penodwyd gan Arlywydd Grant yn Gonswl yr Unol Daleithiau yn Newcastle upon Tyne, swydd o bwys ar gyflog dda fel cynrychiolydd buddiannau America mewn porthladd prysur yn Lloegr.

*Rhan 2 mis nesaf*

## Y TAIR LLYTHYREN

Cydiaf yn y canllaw
wrth esgyn y grisiau cyfarwydd,
a'r deinosor dur ar y gorwel!

Mae dwylo'r degawdau yma,
yn haenau heintus dan fy nghroen,
yn pilo'n y cof
fel papur wal hen aelwyd,
yma,
mae gwaddol y gwadnau
gerddodd y grisiau hyn.

Mangre'r "meic", mae hwn yn eicon.
lleisiau fu'n llywio'r lle ,
geiriau ar y gwifrau yn gwmni i'r dydd,
a Thedi Bêr bob Tachwedd
yn codi llaw,
gwên ar geir
â'i chwant i blant mewn angen.

Bu'r Gadeirlan gyfagos
yn glychau yn ei glustiau,
a'r tŵr mewn "tic toc" â'i drefn,
ymson hwn oedd "Amser".

Bellach,
bydd Llandaf yn llonydd,
newyddion
  chwaraeon
    a straeon  yn fud,
a'r tair llythyren
wedi'u sychu bant
gan ddwster y dyfodol.

Pan ddaw'r hen ddeinosor
i ddamshel ar ddegawdau o ddarlledu,
pan ddaw hwn â'i ddinistr
ar deulu o adeilad,
bydd malu mwy na morter.

Yn y cof
bydd colli cyfnod,
y clwb,
y cymdeithasu,
ac a erys y coed ceirios
oedd yn gonffeti o briodas Mis Ebrill?!

Adeilad y tair llythyren.
bellach wedi mynd yn hen.

Dim gwadnau ar y grisiau,
dim llaw ar y canllaw,
am gyfnod, bydd y BBC
yn nes at  "hunan ynysu".

*Hannah Roberts*

# Keri Evans

## Ffarwelio ag athro hoff

Dydd Mercher, y 26ain o Awst, daeth torf enfawr at ei gilydd ar faes chwarae Ysgol Glantaf i ffarwelio â Keri Evans a fu'n athro chwaraeon yno am dros 30 o flynyddoedd. Yn y dorf yr oedd disgyblion a chyn-ddisgyblion yr ysgol, athrawon a chyn-athrawon, rhieni a chyfeillion – i gyd am ddangos gymaint yr oedden nhw'n parchu ac yn edmygu athro a pherson a oedd wedi cael cymaint o ddylanwad ar eu bywydau.

Keri, ar ei siwrnau olaf, yn gorffwys am ennyd yng Nglantaf, a'r teulu'n cydnabod cymeradwyaeth wresog y dorf.

Daeth Keri i Lantaf yn athro ifanc o'r coleg, yn chwaraewr rygbi dawnus ei hunan, ond â'r gallu i ysbrydoli'r disgyblion hefyd, i ddatblygu eu sgiliau a'u doniau. Cafwyd llu o deyrngedau iddo gan chwaraewyr sy'n enwog erbyn hyn, yn dweud sut yr oedd Keri wedi meithrin ynddynt y weledigaeth o werth y 'gêm agored' a sut y byddai dawn a sgil wastad yn maeddu maint a nerth.

Ond roedd pob un o'r teyrngedau hynny yn pwysleisio rhywbeth arall, sef bod Keri, yn ei holl ymwneud â'r disgyblion, yn amlygu ac yn meithrin 'gwerthoedd' yn gyffredinol mewn bywyd. Un o'r enwogion hynny oedd Jamie Roberts a ddywedodd, "Roedd e bob amser eisiau'r gorau i chi ac roedd yn ddylanwad enfawr yn fy mywyd: yn fy ngyrfa, ond yn fwy byth fel person, achos roedd e'n ddyn llawn gwerthoedd gwych. Roedd pawb yn ei nabod fel athro gwych oedd yn dwlu ar rygbi, ond yn bwysicach fyth, fe welodd e ni i gyd yn dod yn ddynion, ac roedd yn



*Llun: Wales Online*

bwysig iawn iddo ein bod ni'n tyfu i fod yn bobl dda."

Ac meddai un arall, Rhys Patchell, "Roedd e'n ddyn arbennig sydd wedi cael dylanwad enfawr arnaf ers y dyddiau cynnar yn Ysgol Glantaf, hyd at fy ngyrfa broffesiynol – ac mewn bywyd tu hwnt i'r gêm. Roedd yn bleser i'w gael fel athro; roedd yn fraint i'w alw'n ffrind."

Mae hynny'n dweud cyfrolau am Keri yr athro a'r person. Ond nid enwogion y gêm yn unig all ddweud hyn. Gall cannoedd, miloedd o ddisgyblion Glantaf ddweud yr un peth amdano – a'i gyd-athrawon a'r rhieni. Roedd yn bersonoliaeth wresog, gyfeillgar, gadarn, gyson, yn mynnu edmygedd a pharch gan bawb yn ddi-wahân. Roedd y dorf enfawr ddaeth i Lantaf i ffarwelio ag ef yn dyst o hynny.



Cydymdeimlwn yn ddwys â'i wraig, Iola, a'r plant, Dafydd ac Elin Kate, yn eu colled a'u hiraeth. Hyderwn y bydd cysur yn y cof bod Keri wedi cyffwrdd mewn ffordd mor bositif â bywydau cymaint o bobl – a'i fod yntau, hefyd, wedi cael pleser mawr o'r berthynas honno. Wrth gael ei holi gan Rhys Patchell am ei yrfa fel athro, fe ddwedodd, "Dw i wedi byw'r freuddwyd." Roedd yn berson bodlon. Cof annwyl amdano.

*Bryan James*

# Ailddechrau dosbarthu copïau caled

Wrth i'r cyfyngiadau cymdeithasol gael eu llacio gam wrth gam, a bywyd yn dechrau dod yn debycach i normal, mae angen i ni ystyried y cam nesaf o ran dosbarthu'r Dinesydd.

Mae'r fersiwn digidol wedi cael derbyniad brwd gan ein darllenwyr, a bydd rhai yn dymuno parhau i dderbyn copi digidol – ond bydd y rhan fwyaf yn gwerthfawrogi cael copi caled unwaith eto.

Ein bwriad yw gwneud hynny cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.

Er mwyn gwneud hynny, mae angen mwy o ddosbarthwyr lleol. A fyddech chi'n fodlon helpu yn eich ardal chi? Byddai dau neu dri cyfeiriad yn agos at eich tŷ chi yn help mawr. Byddwn yn falch o glywed wrthoch chi.

Diolch. Arthur

029 2062 3628 / aloevans@icloud.com

# Ethni Jones (Daniel gynt)



Yn 79 oed bu farw Ethni Jones ar y nawfed o Awst wedi blynyddoedd o salwch creulon. Cafodd ei geni a'i magu yma yng Nghaerdydd ac odd hi'n ferch i'r diweddar Annie a Gwyn Daniel, cyn brifathro Ysgol Gwaelod y Garth a chyn ysgrifennydd cyffredinol UCAC.

Roedd Ethni ymhlith y deunaw o blant yn yr Uned Gymraeg yn Ysgol Parc Ninian yn 1949 - a ddaeth wedi hynny yn Ysgol Gymraeg gyflawn sef Ysgol Bryntaf a leolwyd ar safle Ysgol Gymraeg Pen Cae heddiw. Mynychodd Ysgol Uwchradd Cathays cyn mynd i astudio Cymraeg ac Almaeneg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Meddai ar bersonoliaeth fyrlymus, hoffus a thaer a bu'n gefn i'w theulu, ei chrefydd a'r Gymraeg ar hyd y blynyddoedd. Anodd oedd dweud 'na' i unrhyw gais ar ei rhan, a bu'n amlwg ym mywyd Cymraeg y ddinas - yn arbennig gydag Aelwyd yr Urdd a gweithgareddau'r Urdd yn y ddinas ac yng ngwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glanllyn.

Unwaith, cofiaf iddi ruthro ataf ynghanol gorymdaith Mudiad Meithrin drwy ganol Caerdydd. Mynnodd fy mod yn derbyn ei chais i mi ddod i Ysbyty'r Meddwl yn Hensol yn y Fro (lle oedd ganddi ddosbarth Cymraeg i rai o'r cleifion) i alw Twmpath Dawns. Dyna'r Twmpath ryfeddaf i mi alw ynddi erioed!

Tro arall dyma fy ffôn yn canu am naw o'r gloch y nos. Ethni, yn gofyn i mi ddod draw i'w thŷ yn Llandaf y funud honno gan fod Nia ei chwaer hŷn, Chris Rees a hithau yn trafod y syniad o sefydlu Cwrs Wlpan – cwrs tebyg i'r cyrsiau iaith dwys a ddefnyddiwyd yn Israel i ddysgu Hebraeg i'r holl Iddewon oedd yn tyrru i'r wlad o Ewrop ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Canlyniad y cyfarfod hwnnw oedd sefydlu'r Wlpan cyntaf erioed yng Nghymru - yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy ym Mhontcanna ym mis Hydref 1973. Cydiodd y syniad a chododd nifer o gyrsiau tebyg ledled Cymru wedi hynny.

Clywais i gan rywun ei bod yn gwbl rugl yn yr Almaeneg, cymaint felly i ryw Almaenwr rywdro ei holi o ba ran o'r Almaen odd hi'n dod gan fod cymaint o raen ar ei hiaith!

Bu'n athrawes Gymraeg ysbrydoledig i gannoedd o ddisgyblion ac oedolion a hyn ynghanol magu pedwar o blant! Gofalodd am Garmon ei mab, gan sicrhau ei fod yn cael pob chwarae teg er gwaethaf ei anabledd - a magodd Garmon yn Gymro, er gwaethaf cyngor arbenigwyr y dylai hi siarad Saesneg ag o!

Am gyfnod buodd yn athrawes Gymraeg yn fy hen ysgol i, sef Ysgol Gyfun Stanwell ym Mhenarth, a bu'n dysgu yn llawn brwdfrydedd yno gan ysbrydoli nifer o'i disgyblion i ddod yn rhugl yn yr iaith. Wedi iddi adael y swydd hon daeth athrawes arall tipyn yn fwy sidêt i gymryd ei lle. Yn ôl yr hanes dyma hi yn mynd i un dosbarth ac eistedd wrth ddesg yr athro cyn annerch y dosbarth. Edrychodd y dosbarth yn syn arni nes i un codi llaw a gofyn i'r athrawes os odd hi'n teimlo'n sâl. "Pam dach chi'n meddwl hynny" gofynnodd yr athrawes, a'r ateb gafodd hi oedd nad oedd Mrs Jones byth yn eistedd i'w dysgu!

Mae hi'n gadael bwlch mawr ar ei hôl ond bydd y cof amdani yn para am flynyddoedd i ddod. Mae ein cydymdeimlad mwyaf didwyll â Michael ei gŵr a'r plant Garmon, Mererid, Gwenfair a Rhiannon, a'i chwiorydd Nia a Lona a'r teulu i gyd, wrth orfod ffarwelio â'r wraig unigryw hon a ddylanwadodd ar gymaint o bobl a ddaeth i'w hadnabod yn ystod ei hoes.

*Gwilym E Roberts*

# Cylch Cinio Merched Caerdydd

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod i drafod trefniadau ar gyfer 2020-2021. Penderfynwyd yn unfrydol, er budd pawb, peidio cynnal cyfarfodydd yn 2020-21.

Rydym, yn llawn hyder, wedi trefnu cynnal Noson Gymdeithasol a Bwffè ar nos Iau, Mehefin 10fed 2021 yng Nghlwb Golff Radur am 7.30 o'r gloch. Fe fyddwch yn cael eich atgoffa, gyda manylion llawn ym mis Mai.

Rydym yn symud ymlaen i drefnu rhaglen arferol ar gyfer 2021-22 gyda'r bwriad o gychwyn yn Hydref 2021 a chynnal pedwar cyfarfod a'r Trip. Byw mewn gobaith!

O ystyried y sefyllfa, mae aelodau o'r pwyllgor wedi cytuno i barhau yn eu swyddi am flwyddyn arall er mwyn hwyluso trefniadau a pharhâd y Cylch.

Hyderwn fel pwyllgor y byddwch i gyd yn cymryd y gofal angenrheidiol ohonoch eich hunain ac edrychwn ymlaen at gyd gyfarfod fel Cylch Cinio fis Mehefin nesaf.

*Rowenna Thomas, Cadeirydd a Bethan Whittall*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Priodas**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Emma Levy a Sam Oldridge ar eu priodas ddiwedd mis Awst.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Fflur Bowen ar eu llwyddiant arbennig yn ei TGAU yr haf yma.

**Cyfarfodydd y Sul**

Parhawn ar hyn o bryd i gynnal ein hoedfa fore Sul ar *Youtube* a'r astudiaeth Feiblaidd am 5 y prynhawn ar Zoom.

**Trafod Emynau a Cherddi Cristnogol**

Bydd y sesiynau Trafod Emynau a Cherddi Cristnogol yn ail- ddechrau nos Iau, Medi 10 ar yr amser newydd o 8 o'r gloch. Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno â'r sesiynau drwy gysylltu â Wyn ar: jamesew@caerdydd.ac.uk

**Gweithgareddau'r Haf**

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol y Mudiad Efengylaidd, fel sawl digwyddiad, arall ar-lein eleni.

Bu rhai o aelodau'r eglwys yn brysur yn cyfrannu at weithgareddau'r tridiau. Emyr James ein gweinidog oedd yn arwain y sesiynau i bobl ifanc gan edrych ar neges epistol Paul at yr Effesiaid.

Lois Adams, Luned Evans a Bedwyr Lewis oedd yn gyfrifol am baratoi Awr i Blant bob bore a chafwyd sesiynau llawn hwyl a sbri.

Roedd cyfarfod nos o dan y teitl Bywyd a chafwyd eitemau amrywiol a neges o'r Beibl.

Mae'n bosib gweld yr holl gyfarfodydd drwy fynd i wefan Mudiad Efengylaidd Cymru.

## MINNY STREET

Yn sgil llacio pellach ar y rheoliadau o ran ailagor addoldai, ym mis Awst bu modd agor y capel ar fore Sul ar gyfer addoliad i aelodau sy'n dymuno ac yn rhydd i ddod i'r capel. Gwnaed hynny gan gydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru, Undeb Annibynwyr Cymru a CYTÛN a bu'r ymateb o du aelodau yn frwd.

Oherwydd yr angen i sicrhau diogelwch, mae'r addoliad yn brofiad gwahanol iawn i'r hyn rydym yn gyfarwydd ag ef, ac mae'r angen i gadw pellter yn cyfyngu ar nifer y gynulleidfa a all fod yn y capel ar gyfer yr addoliad. Y Gweinidog sy'n arwain yr addoliad, gan ddilyn y taflenni oedfa wythnosol a baratowyd ganddo ers diwedd mis Mawrth. Mae'r taflenni yn parhau i gael eu dosbarthu i bob un o aelwydydd yr eglwys fel bod pawb, boed yn y capel neu ar yr aelwyd, yn medru cydaddoli.

Rhagwelir y bydd y patrwm hwn ar addoli'n parhau am beth amser. Mae'r taflenni oedfa i'w gweld ar wefan yr eglwys. Mae cryn edrych ymlaen hefyd at gyfarfodydd *Zoom* yr Ysgol Sul a fydd yn ailgychwyn yn ystod y mis.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Mae'r penderfyniad wedi ei wneud, a'r Ymddiriedolwyr a'r Diaconiaid yn gytûn mai ar y 13eg o Fedi 2020 y bydd Bethlehem yn ail-agor y drysau ac yn gwahodd y gynulleidfa yn ôl i'r gorlan.

Gwn bod ambell i gapel yn y cylch eisoes wedi ail-afael yn y dyletswyddau ers mis Gorffennaf, ond yng nghysgod y Garth aros am ychydig yn hwy oedd yn taro orau.

Bydd yn oedfa arbennig, dan arweiniad Delwyn Sion, ond bydd hefyd yn oedfa wahanol iawn i'r hyn sydd yn gyfarwydd i bob un ohonom.

Ni fydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn o fewn muriau'r adeilad serch hynny, ond 'rydym yn hynod falch bod yr arbrawf o gael cwmni'r plant ar y Sul trwy gyfnod y clo, yn rhithiol, o'u cartrefi, wedi profi'n llwyddiant, a bydd hynny yn parhau dros yr wythnosau nesaf.

Bydd adolygiad cyson o'r sefyllfa yn rhoi gwell arweiniad i ni yn y man o'r hyn fydd angen ei wneud er sicrhau bod teulu Bethlehem yn gallu dod at eu gilydd fel un unwaith yn rhagor.

Mawr fydd y disgwyl am hynny oherwydd bod colli presenoldeb a sŵn y plant o oedfa yn loes calon i bob un ohonom.

Mae cwestiynau di-rif wedi codi yn sgil y trafodaethau ar ail-agor, o ddilyn y canllawiau a baratowyd ar ein cyfer gan Undeb yr Annibynwyr, ond parodrwydd yr aelodau i ymddiried bod popeth posibl wedi ei wneud er sicrhau diogelwch pob unigolyn fydd y maen brawf.

Bydd union fanylion yr hyn a fydd yn cael ei gynnig er tawelu'r meddwl, ac yn nodi'r drefn fabwysiedig o ran ymarfer dda o fewn y capel, yn cael ei rannu ar aelodau yn fuan, ond dod i addoli y byddwn i gyd, ac yn yr ysbryd hwnnw y gwahoddwn chwi i'n plith.

Croeso 'nôl un ac oll!

## TABERNACL, YR AIS

**Gwasanaethau**

Yn dilyn cyfnod hir heb yr hawl i ymgynnull mewn gwasanaethau, braf oedd cael y cyfle i addoli unwaith eto yn y capel. Ym mis Awst cynhaliwyd gwasanaethau bob nos Sul gyda'r gynulleidfa yn cadw'n fanwl at y gofynion diogelwch. Rhodri ab Owen, Rhys ab Owen, Mark John Williams a Noa Evans yn eu tro oedd yn gyfrifol am gynnal yr oedfaon. Braint arbennig oedd cael bod yn rhan o weinyddu'r cymun yn ystod un o'r gwasanaethau. Yn wreiddiol doedd dim modd defnyddio'r organ ond erbyn canol y mis daeth caniatâd i'w chanu yn ystod y gwasanaeth. Roedd yn ychwanegiad arbennig.

**Penblwydd Hapus**

Yn ddiweddar fe ddathlodd tri o'r aelodau benblwydd pwysig. Roedd Brenda Hunt, sydd erbyn hyn mewn cartref yn Winchester, yn 93 oed. Cyrraedd yr 80 oedd camp Enid Edwards a Huw Jones – llongyfarchiadau i'r tri.

**Mynediad i Brifysgol**

Pleser oedd clywed bod Gruff McVeigh wedi cael cynnig lle yn Queens Belfast, Ffion Rees yn Durham a Huw Jones yn Christ Church Rhydychen.

**Arholiadau Safon a TGAU**

Llongyfarchiadau i bawb wrth iddyn nhw dderbyn eu canlyniadau wedi dwy flynedd o astudio caled.

**Bore Coffi**

Yn wahanol i'r drefn arferol, yn ystod y cyfyngiadau llym, cynhaliwyd y bore coffi deirgwaith ar lein gyda chymorth *Zoom*. Roedd y fenter yn wahanol iawn ond yn un llwyddiannus dros ben.

## BETHEL, PENARTH

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda theulu Mavis Lewis a fu farw yn Ysbyty'r Waun ar Awst 5ed yn 87 oed yn dilyn salwch byr. Bydd ei dau blentyn, John a Mair, ei thair wyres a'i theulu estynedig yn teimlo'r golled yn arw iawn. Felly ninnau ei chyd-aelodau ym Methel. Ganed a maged Mavis yn Ffairfach, Llandeilo; cafodd ei haddysg gynradd ac uwchradd mewn ysgolion lleol. Yna dilynodd gyrsiau i'w chymhwyso'n fferyllydd. Dilynodd yr yrfa hon am amser hir, yn bennaf yn cyflawni swydd locwm mewn pentrefi o gwmpas Llandeilo a Llanymddyfri; daliodd ati tan yn 75 oed. Priododd â Herbert John yn 1955, yntau yn athro cemeg yn Ysgol Ramadeg Llandeilo. Ymhen amser, ei gŵr wedi marw yn 1987, ymddeolodd yn llwyr i Benarth yn 2006.

Ers misoedd oherwydd y cloi-lawr, bob dydd Mercher, trefnwyd cyfraniadau amrywiol gan aelodau'r Ofalaeth dan y pennawd Meddyliau Mercher. Bellach, gydag arwyddion bod posibilrwydd i ni fynd yn ôl i'r capel am oedfaon, mae Meddyliau Mercher yn dirwyn i ben. Diolchwn i bob un a rannodd.

Dros fis Awst, gyda'n gweinidog yn mwynhau gwyliau, bu'r oedfaon *Zoom* ar fore Sul dan ofal Siân, Euryn a Neville. Diolch iddynt.

Yr her nesaf ar ein hynt yw cyflawni gofynion diogelwch gyda golwg ar gynnal oedfa yn y capel ar Fedi 13eg.

## BETHEL, RHIWBEINA

Mae'r gwasanaethau trwy gyfrwng *Zoom* wedi parhau a diolchwn i aelodau Salem am drefnu'r gwasanaeth ar dri dydd Sul ym mis Awst. Diolch hefyd i rai o aelodau Bethel am fod mor barod i roi darlleniadau - Hafwen Roberts, Carol O'Donnell a Rosina Davies.

Yn ystod y mis aeth heibio cawsom y newyddion trist am un o'n haelodau ffyddlon. Bu farw Eiluned Davies (Lyn) ar ôl dioddef yn ddewr dros gyfnod hir. Byddwn yn gweld ei heisiau yn y capel a chofiwn yn ddiolchgar am ei doniau cerddorol. Bu o gymorth mawr i gôr y capel. Rydym yn cydymdeimlo â'i chwaer Olwen Williams a'r teulu oll. Dymuna Olwen a'r teulu ddiolch i bawb am eu cardiau, llythyron a galwadau ffôn a fu'n gysur mawr iddynt yn eu profedigaeth.

Mae gwaith wedi cychwyn i adnewyddu wal gefn y capel tu fewn a thu allan. Roedd tamprwydd wedi treiddio drwodd yn dilyn y glawogydd mawr ar ddechrau'r flwyddyn. Ni fydd y capel yn gallu ail-agor tan fydd y gwaith hwn wedi ei gwblhau ond edrychwn ymlaen at ddychwelyd pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

## EBENESER

**Llongyfarchiadau...**

...i Lowri Tudur ar ennill gradd gyntaf mewn Cymdeithaseg yn UCL Llundain.

Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Dathlu'r 60**

Ar 6ed o Awst dathlodd Malcolm a Jean Thomas eu priodas ddiemwnt yng nghwmni teulu.

Llongyfarchiadau ar garreg filltir arbennig yn eu bywydau gan deulu Ebeneser.

**Colled**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth yr annwyl Keri Evans ddechrau mis Awst. Cydymdeimlwn yn fawr gydag Iola, Elin, Dafydd, Liam, Casi a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

**Dechrau newydd**

Llongyfarchiadau i Gwilym Tudur ac Alexandra briododd ar ddydd Sadwrn 15fed o Awst yn Rhydychen. Aethant ar eu mis mêl i Gernyw. Byddant yn ymgartrefu yn Aberystwyth wrth i Gwilym ddechrau fel gweinidog yn Eglwysi Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth a Bethel Tal-y-bont. Pob bendith i'r ddau ohonyn nhw ar ddechrau cyfnod anturus yn eu bywydau.



*Alex a GwilymTudur*

## EGLWYS DEWI SANT

**Ail Agor yr Eglwys**

Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol o'r Cyngor Plwyf Eglwysig ar 3 Awst i ystyried a ddylid ail agor Eglwys Dewi Sant ar gyfer gwasanaethau.

Ar gais y Ficer a'r Wardeniaid paratodd Dafydd Tanner gynllun o'r adeilad fel sail i drafod ymarferoldeb defnyddio'r eglwys yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru a'r Eglwys yng Nghymru. Cytunwyd y byddai'n ymarferol i wneud hynny a phenderfynwyd cynnal gwasanaeth dydd Sul, 9 Awst i aelodau'r Cyngor Plwyf yn unig fel arbrawf. Cafwyd gwirfoddolwyr i lanhau a diheintio'r adeilad ymlaen llaw ac i weithredu fel tywysyddion i gyfarwyddo addolwyr. Ymgymerodd y Ficer â'r gwaith sylweddol o osod yr holl arwyddion diogelwch angenrheidiol drwy'r eglwys a'r neuadd.

Gyda chymysgedd o deimladau llawen a dwys cynhaliwyd y Foreol Weddi fore Sul, 9 Awst yn yr eglwys, a chytunwyd y dylid cynnal gwasanaeth boreol tra pery'r cyfyngiadau presennol. Felly, Sul 16 Awst cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o ddiolch ac ymbil, ac am y tro cyntaf, caed hawl i ddefnyddio'r organ. Dydd Sul, 23 Awst gweinyddwyd y Cymun Bendigaid.

Bydd y ddau bodlediad ar gyfer addoli ar yr aelwyd yn parhau bob Sul fel y gwnaed ers pan gaewyd yr eglwys. Bydd y gwasanaeth yn yr eglwys yn wasanaeth ychwanegol. Er mwyn sicrhau na fydd nifer yr addolwyr yn uwch na'r lleoedd sydd ar gael dan yr amodau diogelwch presennol, disgwylir i'r sawl sydd yn dymuno dod i'r gwasanaeth ar fore Sul hysbysu ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig cyn pedwar o'r gloch ar y dydd Sadwrn blaenorol.

**Coffi a Chlonc**

Diolch eto i Siân Eleri Thomas am drefnu Coffi a Chlonc rhithiol ar gyfer y dysgwyr dydd Sadwrn, 15 Awst. Cynhelir y Coffi a Chlonc rhithiol nesaf fore Sadwrn 19 Medi.

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau i bobl ifanc yr eglwys a lwyddodd, dan amgylchiadau eithriadol o anodd, yn eu haroliadau TGAU a Lefel A. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu cyrsiau neu eu swyddi newydd.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Mel ac Elvira Amos ar eu Priodas Aur. Anfonwn ein dymuniadau gorau atynt ar achlysur arbennig iawn.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

cyswllt: carys@caerdelyn.com

Dros fisoedd cyfnod y clo, cawson ni Gatholigion wylio'r Offeren yn Gymraeg ar *Zoom* bob wythnos. Esgob Edwin Regan, esgob Wrecsam gynt, aeth i'r afael â'r dechnoleg a chynnig dathlu'r Offeren bob bore Sul. Gymaint oedd ein braint, oherwydd does dim un Offeren wythnosol yn Gymraeg drwy Gymru gyfan.

Drwy wahanol gysylltiadau, daeth nifer fawr ohonon ni'n gynulleidfa gyson i wylio'r Esgob a'r Tad Allan R. Jones yn cymryd y cyfrifoldeb yn eu tro. Ond nid gwylio'n unig oedd y profiad – daeth yr Offeren, mewn dathliad syml ar fwrdd y gegin, yn fyw yng nghartrefi pob un ohonom. Clywed lleisiau o bob cwr yn darllen llith neu'n canu salm, a rhannu yng ngweddi 'r Eglwys o'n hystafell fyw.

Dyma sylwadau rhai o'r criw Zoom:

Trwy gyfrwng y cyfrwng newydd, daeth cyfle i bobl ddod ynghyd o bedwar ban byd, a phawb yn gysurus gartref ond eto'n un mewn cynulleidfa ar y we, yn addoli ac yn moli Duw gyda'n gilydd. Dyna un o fanteision *Zoom*, sef y gallu i weld aelodau eraill y gynulleidfa a'r ymdeimlad ein bod ni i gyd yn perthyn i'n gilydd – corff Crist.

*Rydym wedi bod yn rhyngwladol hefyd, efo pobl yn ymuno o Japan, yr Almaen a hyd yn oed Lloegr! Gweddïo efo'n gilydd a dinistrio muriau'r feirws drwy technoleg!*

Clywed llais o Japan yn gliriach na Chymru. Mwynhad rhyfeddol er bod y dechnoleg yn drech na fi weithiau, a minnau'n colli llais neu lun. Cyfle i gwrdd â ffrindiau newydd ac adnewyddu hen gyfeillgarwch.

*Ry'n ni'n gwerthfawrogi'r Offeren yn fawr; mae'n wych i deimlo'n rhan o deulu mawr. Mae wedi rhoi cysur ar adeg anodd, er i ni boeni unwaith ein bod ni'n amharu ar y gwasanaeth pan ddaeth delifri o'r siop a'r peiriant llestri'n cadw sŵn yn y cefndir.*

Nid yw bod yn rhan o gynulleidfa *Zoom* yn gyfartal ag ymuno mewn Offeren, ond mae'n hyfryd gweddïo gyda Chymry o Gaergybi i Benarth a thu hwnt. Dros y misoedd, rydym wedi tyfu nid yn unig i fod yn gynulleidfa *Zoom*, ond yn gynulleidfa ysbrydol a chyfeillgar.

*Mae dathlu'r Offeren yn Gymraeg wedi bod yn brofiad anhygoel, yn enwedig i ni Gatholigion Cymraeg i ddathlu'r Offeren yn ei hiaith ein hunain. Drwy Zoom, ry'n ni'n gweld pawb ac yn cyfarch ein gilydd cyn i'r Offeren ddechrau. Rwy'n teimlo'n bod ni'n dathlu'r Offeren gyda Iesu Grist a'n ffrindiau – yn y gegin. Clod, clod i Dduw!*

Nid yn swil gyda'n gilydd y deuwn
at ein Duw'n dragywydd;
yr hen ffordd, ar sgriniau Ffydd,
ddaw i ni mewn ffordd newydd.

---

# Y Dychymyg Ôl-Fodern

**Agweddau ar ffuglen fer Mihangel Morgan**
**Rhiannon Marks Awst 2020**

Cyfrol arbrofol o feirniadaeth greadigol yw hon, sy'n cynnig golwg ffres ar ffuglen fer y llenor nodedig Mihangel Morgan (1955–). Hon yw'r astudiaeth estynedig gyntaf o'i waith, a rhoddir sylw penodol i'r wyth cyfrol o ffuglen fer a gyhoeddodd rhwng 1992 a 2017 – cyfnod lle gwelwyd datblygiadau arwyddocaol ym maes rhyddiaith Gymraeg. Astudir gwaith Mihangel Morgan gan fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, ac ar lu o gyrsiau Prifysgol. Bydd Y Dychymyg Ôl-Fodern yn ganllaw ac yn gymorth iddynt oll ddeall mwy am y llenor nodedig hwn. Daw Rhiannon Marks yn wreiddiol o Gil-y-Cwm, Sir Gâr, ac fe'i haddysgwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth a Choleg yr Iesu, Rhydychen. Mae'n ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ac yn arbenigo mewn llenyddiaeth gyfoes a theori lenyddol. Enillodd ei chyfrol academaidd gyntaf, *'Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr': Golwg ar Waith Menna Elfyn*, wobr Goffa Syr Ellis Griffith yn 2015.




'O'r diwedd, dyma astudiaeth gynhwysfawr o gyfraniad enfawr Mihangel Morgan i ffuglen fer yn y Gymraeg, un sy'n gosod ei waith mewn cyd-destunau Ewropeaidd cyfoes. Mae'r gyfrol nid yn unig yn ymdriniaeth ddadlennol â gwaith yr awdur, ond hefyd yn ymateb creadigol cyfaddas iddo – yn ddychmygus, deallus ac yn cynnig difyrrwch di-ben-draw i'r darllenydd. Ardderchog!' - Yr Athro Angharad Price, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor.

'Dyma ddarn o feirniadaeth greadigol yng ngwir ystyr y gair, cyfrol nad oes dim sy'n gonfensiynol na'n rhagweladwy amdani. Wedi ei hysbrydoli gan ryddiaith storïol Mihangel Morgan, mae'n ymateb i'r her a osodir ganddi gyda chyfuniad amheuthun o ddychymyg a deall, ffresni a gwreiddioldeb.'- Yr Athro Gerwyn Wiliams, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor.

Os hoffech drefnu cyfweliad gyda Rhiannon Marks, neu os hoffech dderbyn copi adolygu, cysylltwch â: Bronwen.Swain@gwasg.cymru.ac.uk Y Dychymyg Ôl-Fodern: Agweddau ar ffuglen fer Mihangel Morgan – Rhiannon Marks – CM – 9781786835901 – £19.99 Y Dychymyg Ôl-Fodern: Agweddau ar ffuglen fer Mihangel Morgan – Rhiannon Marks – eLyfr – 9781786835918 – - £19.99

CYNNWYS: Diolchiadau Rhagair Rhagymadrodd 1. Dechrau'r Tymor ym Mhrifysgol Caerefydd 2. O'r Merddwr Dychrynus 3. Ar drywydd Hen Lwybr a Storïau Eraill 4. Cynnal Gweithdy: Saith Pechod Marwol 5. Gwthio Ffiniau yn Te Gyda'r Frenhines 6. Pwyllgora a Chystadlu 7. Jean Baudrillard a'r cyflwr 'hyperreal' 8. Trafod Theori Cadi 9. Agweddau ar Tair Ochr y Geiniog 10. Storïau Ffeithiol 11. Dadadeiladu 'Recsarseis Bŵc' yn Cathod a Chŵn 12. Adnabod Awdur? 13. Ymweld ac ailymweld yn Kate Roberts a'r Ystlum a Dirgelion Eraill 14. Crefft y Stori Fer Heddiw 15. Di-ffinio 60 16. Hel Syniadau Llyfryddiaeth Ddethol

# Ysgol Farddol
# Menter Caerdydd

Bob mis yn ystod locdown fe gefais y pleser o lywio sesiwn gynganeddu ar *Zoom*, a drefnwyd trwy garedigrwydd Menter Caerdydd. Nid gwersi ffurfiol oedden nhw ond cyfle i aelodau sy'n rhychwantu'r tri dosbarth cynganeddu arferol i gwrdd, a darllen eu cerddi a thrafod arferion da, yn ogystal ag ambell reol fwy astrus! Dyma ddetholiad o gerddi o'r sesiwn ddiweddaraf, gafodd ei chynnal ar Awst 11eg. Mae'r cerddi naill ai'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Eisteddfod AmGen, neu'n gynhyrchion a baratowyd fel rhan o'r Ŵyl honno.

*Aron Pritchard*

**Eisteddfod 2020**

Dim ymson, dim Coroni,
Dim saint, dim braint a dim bri,
Dim awdlau, dim traed mwdlyd,
Dim hwyl, dim "Yma o hyd",
Dim corsydd a dim cyrsiau,
Dim llu yn canu mewn cae,
Dim adlen a dim adlais,
Dim modd cael loncian hyd maes,
Dim camp a rhemp, dim crempog,
Dim Menyn Llan, dim maen llog,
Dim awen lawen a lol,
Dim pebyll a dim pobol,
Dim plwy' i Fynwy, i Fôn,
Dim tir gwâr, dim Tregaron.

*Lynne Davies*

**Steddfod Amgen**

Daeth Cofid a'i ofidiau
A'r Gen, fel yr oedd, ar gau
A galar tre Tregaron
A una gri genedl gron –
A phrofiad anghredadwy
Ni ddaw'n maes i ddenu mwy.
Edrych wnawn nawr o adre
Ar hwyl yr ŵyl ar y we
A'i hasbri'n deffro ysbryd
Yr Haf, i'r Cymry o hyd.

*Mererid Jenkins*

**Eisteddfod AmGen**

Try gohirio Tregaron
yn gân haf trwy'r AmGen hon.

Os marw'r maes, miri mwy
trwy we rymus sy'n tramwy;
didau o nodau nwydus
rolia'n llon o'r Ŵyl i'n llys,
a thrwy oriel picselau
aiff Zoom â'r bwrlwm trwy'r bau.
Addo dawn mae'r donfedd deg
a chawn hwyl trwy dechnoleg.

Er gohirio Tregaron,
rhydd AmGen awen i hon.

*Eirian Dafydd*

**Eisteddfod Amgen 2020**

Torri garw Tregaron
Yn nesáu yw hanes hon.
Ein henfro nid yw'n unfryd:
"Damo, bois, ond oes dim byd
Amgenach nag ymgynnull
Ar y We o wawr i wyll?"

Gwŷr pybyr, gynt mewn pebyll,
Nid ynt glên; yr hen dry'n hyll:
"Eith yn ffliwt ar gompiwtar."
"Nid gŵyl, hon, i'r gwron gwâr."
"Ein henllan drodd yn hunlle,
Â'n hannwyl Ŵyl ar y We!"

Drwgeirio wna Dregaron
Am yr haint amhara hon,
A lladd hwyl, lluddo heulwen
Maes ynghyd. Daeth byd i ben.
Cur dagodd Ceredigion.
Aeth yn lleddf a hithau'n llon.

Amynedd yw ei manna.
Daliwch wynt a dêl y chwa
O awyr iach hen wreichion:
Hon, ei phair, drwy wifrau ffôn.
Ein bôn, o Fôn i Fynwy,
Gwaeddwch We!  Gwahoddwch hwy!

*Emlyn Williams*

**Steddfod AMGEN**
(wrth wrando ar araith Llywydd y Dydd Eisteddfod Hwlffordd 1972, sef Carwyn James.)

Heb ru Awst mae'n dawel, braidd – yn y gell
I'r we'n gaeth, feudwyaidd
Yn siŵr, ond daw llais euraidd.

Ein herio wna'r Pryderi – ei adlam
Hudlath Mabinogi
Yn hyder y traddodi.

Angerddol ei feistrolaeth – ar eiriau,
Ar erwau'n llenyddiaeth,
Arwr ein cae o hiraeth.

Yr iraeth ddaw i'm herio – a mynnaf
Lais mwyn yn llawn cyffro
Haf o awydd adfywio.

*Dilwyn Jones*

**Drych**
(Y Dyn Trachwantus)

Ymhlith ei wynebau rhithiol di-ri
i'r drych datguddiadol,
llymun yw'r llun allanol
a chnaf sy'n edrych yn ôl.

*John Manuel*

**Ffynnon**

O weled y pamffledi'n ddaeareg
o ddŵr llawn budreddi,
a lifodd ein hanfodd ni
am leinin yr amlenni?

*Aron Pritchard*

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Beth am annog un person newydd i ymuno â dosbarth dysgu Cymraeg yr hydref hwn."*



**Gwilym Dafydd**

## Sian Siop y Felin

Mary Siop y Felin oedd hi ers nifer o flynyddoedd, yna Beth yn ystod y cyfnod diweddar ond erbyn hyn, ers diwedd mis Awst, Sian Siop y Felin fydd hi yn Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd. Daw Sian o Flaenau Ffestiniog yn wreiddiol, wedi gweithio fel tiwtor Cymraeg i Oedolion felly bydd nifer ohonoch mae'n debyg yn ei hadnabod. Mae'n hoff o flodau ac yn eu gwerthu ynghyd â chardiau cyfarch a llyfrau yn y siop. Mae Sian yn awyddus i barhau i werthu copiau o'r Dinesydd, tasai gennym gopiau caled i'w gwerthu – does dim! Os nad oes cyfeiriad e-bost gyda chi, yna bydd rhai ohonoch yn darllen y geiriau hyn ar gopi caled.

## Hanes Tuk Tuk gyda Lynda Newcombe

Pan aethon ni i ymweld â theulu yng Nghanada cwrddon ni ag un o'r cathod mwyaf prydferth yn y byd.

"Beth yw enw'r gath?" gofynnais i.

"Tuk Tuk,"meddai cyfnither Stephanie. "Tacsi yn iaith Thai."

Roedd Tuk Tuk yno bob nos pan gyrhaeddon ni adre ar ôl galifantio. Pan ganon ni seiloffon Wncl Ioan roedd Tuk Tuk yn helpu gyda'i bawennau ac yn carioci!

Ddwy flynedd cyn i ni ymweld â'r teulu gwelodd Stephanie gath yn yr ardd. Dywedodd Wncl Ioan wrth sylweddoli taw cath grwydr oedd e.

"Rhaid iddo fe aros yno. Dw i ddim yn fodlon i gael cath yn y tŷ."

Pan ddaeth y tywydd yn oer gwnaeth Wncl Ioan flwch i Tuk Tuk.

Pan ddaeth yn oerach gorchudd i fynd ar y blwch.

Pan ddaeth hyd yn oed yn oerach dywedodd Wncl Ioan,

"Mae Tuk Tuk yn gallu cysgu yn yr islawr. Ond rhaid iddo fe aros yno. Dw i ddim yn fodlon i gael cath yn y lolfa."

Pan ddaeth hyd yn oed yn oerach dywedodd Wncl Ioan,

"Mae Tuk Tuk yn gallu cysgu yn y lolfa. Ond rhaid iddo fe aros yno. Dw i ddim yn fodlon i gael cath yn yr ystafell wely.

Trannoeth neidiodd Tuk Tuk ar wely Wncl Ioan a Bopa Maisie a chysgodd yno bob nos am saith mlynedd!

Pwy oedd yn llefain pan fu farw Tuk Tuk?

Ie! Wncl Ioan. Roedd rhaid i Bopa Maisie wneud y deyrnged yn yr angladd. Canon nhw ganeuon o'r sioe *Cats* ac arsgrifio ar ei garreg fedd "Y gath Siämaidd a grwydrodd i'n calonnau ac sy wedi mynd i'r ochr draw."



*Stephanie a Tuk Tuk*

## Clonc ar Zoom

Chwarae teg i Sheridon Morgan. Mae e'n dal i'n gwahodd i'r Clonc rhwng 1 a 2 o'r gloch, ddydd Llun, Mercher a Gwener ers misoedd lawer erbyn hyn. Cafodd e bythefnos o wyliau a dyma gyfle eto, y pedwerydd, i bawb cael golwg ar gi enwocaf *Y Dinesydd* sef Mali yn La Terrière, Ffrainc, y tro hwn. Ein diolch i Gwen Rice, tiwtor Cymraeg i Oedolion, am wahodd pawb ynghyd yn ystod absenoldeb Sheridon.




*Sheridon a Mali*

## Teithio

Ydych chi wedi cael gwyliau erbyn hyn? Efallai eich bod am aros tan fis Medi – y gobaith yw y bydd y disgyblion a'u hathrawon nôl yn yr ysgol erbyn hynny!

Profiad rhyfedd braidd oedd paratoi a phacio ein bagiau ac ati ar gyfer taith i Ynys Môn ar fore Mawrth, 11 Awst. Arhoson ni yn Gwesty'r Pererin (Pilgrim Hotel) ger Henffordd am baned canol bore yna ymlaen i'r Amwythig. Yno cawson ni ginio salad blasus yn yr ardd gyda fy nwy gyfnither croesawgar Gwyneth a Margaret a'r ci o'r enw Bertie.

Y bore Mercher canlynol teithion ni o Gerrig-mân ger Amlwch i Borthaethwy i gael coffi canol bore gyda ffrindiau, Ian a Lis, (Llangernyw gynt), a chinio arall allan yn eu gardd.

Gan ein bod mor agos, cerddon ni i fyny'r allt, rwy'n dweud allt yma yn hytrach na rhiw neu fryn gan ein bod yn y gogledd, heibio Ysgol David Hughes a sgwrs fach yng ngardd Peter a Lynn Cutts. Roedd Peter yn weinidog yng Nghaerfyrddin a'r cylch tan iddo ymddeol blwyddyn yn ôl. Ond gyda sŵn bygythiol yn dod o'r tir mawr – mellt a tharanau, cerddon ni nôl lawr yr allt yn ddigon cyflym. Mae'n debyg bod rhai ohonoch chi, fel ni ein dau, wedi cael trochfa neu ddwy yn ystod mis Awst 2020!

Rhaid dweud rhwng y dydd Mawrth a bore Sadwrn, dyna'r tywydd cynhesaf rydw i erioed wedi profi ar Ynys Môn - rwyf wedi bod yn mynd i fyny yno'n gyson ers 1987 – mae'n siwr bod rhai ohonoch yn gwybod pam!

## Amser Jôc gyda Huw James

Aeth y bois i Baris am y gêm. Ar ôl noswaith hir cafodd Dai ei hun heb ei ffrindiau mewn bordello moethus iawn. Daeth y *Madame* ato fe a gofyn iddo beth hoffai fe gael. "Hoffwn i frechdan gaws a'r ferch fwyaf hyll yn y tŷ."

"Ond *Monsieur*, gallech chi gael y bwyd gorau ym Mharis a merched pert o bedwar ban y byd." "Dw i ddim yn newynog. Dw i ddim yn chwantus.  Dw i'n hiraethu am fy nghartref."

## Clonc Yr Awr Hapus yn y Parc



# Hedbangars Byd Natur

Pan dach chi'n dechrau meddwl yn ddwfn am fyd natur dach chi'n sylweddoli bod popeth yn ffitio efo'i gilydd fel jig-so enfawr. Dim ond rhywun fel Syr David Attenborough sydd â gobaith i osod pob darn yn ei le a dw i'n siŵr nad oes  ganddo fo ateb i bob cwestiwn. Meddyliwch am adar, yn fras, eu pwrpas nhw yw bwyta, ond mae rhai yn bwyta hadau, rhai yn bwyta pryfed genwair, eraill yn bwyta morgrug, rhai pysgod a rhai egsotig yn ffafrio neithdar. Pawb at y peth y bo! Ond beth bynnag yw'r rheswm bodoli mae'r Bod Mawr wedi sicrhau bod eu cyrff yn addas at y pwrpas. I'r rhai sydd yn bwyta hadau caled mae O wedi rhoi pig groes iddyn nhw, pig hir i'r rhai sydd yn hoffi neithdar, ac yn y blaen. Ond ym mhob teulu mae rebel, rhywun sydd eisiau creu sŵn fel oedd yr hen grwpiau pync. Pwy ydyn nhw tybed? Wel hedbangars byd adar yw cnocellau'r coed. Mae'n aderyn *high impact* go iawn. Mae'n mynd allan yn y bore a threulio'r diwrnod cyfan yn taro ei big i mewn i ryw goeden. Dychmygwch, mae o'n cyrraedd adref ac mae ei wraig yn gofyn "Sut fath o ddiwrnod wyt ti wedi cael, cariad?" A ydi o'n ateb "Paid â gofyn, mae gen i gur pen ofnadwy?" Wel na, dydi o ddim, mae'n dweud "O go dda w'st ti, mae'r diwrnod wedi bod braidd yn hir a'r gwaith yn *boring* wrth gwrs, neis bod adra!"




Y peth yw, ac efallai nad ydych yn gwybod hyn ond, tu ôl i'w big mae math o *shock absorber* felly does dim rhaid i'w wraig ddod â Paracetemols iddo ar ddiwedd pob dydd, clyfar ynte!

Yn ddiweddar, wrth fynd i'r gegin efo llestri i olchi gwelais i gnocellau'r coed ar y lawnt, y fam a'r cyw. Roedd y fam yn brysur yn dangos i'r cyw sut i chwilio am bryfed genwair. Roedd hyn yn gyfle rhy dda i golli ac es i i nôl y camera a dechrau tynnu lluniau ohonyn nhw trwy'r ffenest. Doedd y cyw ddim yn cael llawer o lwc ac yn sydyn dyma'r fam yn troi ato a stwffio ei phig i mewn i'w geg, doeddwn i ddim yn disgwyl tynnu llun o'r fath ac mae'n llun i'w werthfawrogi.

Nid ydych yn gwybod am faint bydd adar yn aros yn yr un lle, pan dach chi'n gweld rhywbeth fel hyn mae'n rhaid i chi wneud penderfyniad, gadael y ffenest a chwilio am y camera neu aros a mwynhau.  Dw i'n falch iawn fy mod i wedi tynnu'r llun yma, fy mod i wedi dewis mynd i nôl y camera. Pan nes i adael y ffenest dim ond dau aderyn oedd yna, digon diddorol ond petaswn i wedi aros a gweld hyn mi fydda i wedi difaru peidio mynd i nôl y camera.

*Rob Evans*

## Rhif: 206





### Ar Draws

7. Lliw i'r dydd a ddaw fe glywn (5)
8. 'Ac fe dynn ----- luoedd
   Ato'i hun o fôr a thir' (PJ) (7)
9. Heb fod yn glir sut mae tocio blaen maneg Fflur (7)
10. Yn nhyb Alaw mae ger y llyn (1,4)
12. Clodfori cadwyn ddibendraw sy'n deilwng o glod (10)
15. Tonfeddi da i greu blinder (10)
18. Fel gŵr yn dychwel ar hyd Lôn-y-dail (5)
19. Nid lladd y wên a wna hwn (7)
21. Dylan bach a phâr teilwng (7)
22. 'A'i throed heb bwyth o'r ede
   Hynny yw dim ----- -----?' (RW) (4,1)

### I Lawr

1. Mae dogni di-dâl yn creu iselder (10)
2. Croten yn rhoi pum cant mewn poen (5)
3. Gwasgu'r dihafal i dalu yn ôl (4)
4. Cynllun i'w ddilyn am fod Pegi Ann yn pwyso llawer (6)
5. 'Yn dy obaith dwg fi mlaen
   Trwy ----- llif a thân'(cyf HEL) (8)
6. Banc y Darian a dorrwyd (7)
11. 'Croesaw Medi, fis fy serch
   Mis y porffor ----- ----- -----' (EW) (2.1.7)
13. 'Am graig i -----
   Fy enaid, chwilia'n ddwys' (MD) (8)
14. Rhoi ennaint ar groen caled yn y conglau (7)
16. Mae'n tywallt a'r Iarll yn benwan wedi colli dros hanner ei wystrys (6)
17. Ysbryd mewn cariad ar yn ail (5)
20. ' Bydd yn -----, paid â llithro,
   Er mor dywyll yw y daith' (cyf BD) (4)



**Enillydd Croesair Rhif 204**
**Sarah Barr, Rhiwbeina, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 204**

**Ar Draws:** 1. Cacamwci 5. Heno 9. Medi 10 Organ geg 11. Dimai 12. Letysen 13. Haul o'r cwmwl du 17. Efnisien 19. Lwyn 20. Llanrwst 21. Af ato 22. Gwin 23. O'r llestri
**I Lawr:** 2. America 3. Anifail 4. Carol y crefftwr 6. Esgus 7. Organau 8. Bantam 13. Haerllug 14. Ocsiwn 15. Wylofus 16. Dwyster 18. Nansi

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Hydref, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Y DIGWYDDIADUR

### MEDI

**Mawrth, 15 Medi**
Cymrodorion y Barri. Bydd yr Athro Mererid Hopwood yn siarad ar y testun 'Iaith' trwy Zoom am 7.30pm. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Eiry Palfrey (eirypalfrey@gmail.com).

**Iau 17 Medi**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Trefnir Noson Gwis ar Zoom. Caiff y cyfrinair ei anfon atoch trwy e-bost. Os am ymuno fel aelod newydd ebostiwch: eiry.davies@hotmail.co.uk Croeso mawr i bawb.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

## Yn Eisiau

**Gwahoddiad caredig. A hoffech chi gael cyfle i gynorthwyo i baratoi cyfres o gyhoeddiadau ym maes diddorol a gwerthfawr diwylliant gwerin Cymru?**

**Neu a wyddoch chi am rywun arall sy'n gallu cynnig cymorth? Teipio yw'r gwaith pennaf. Yn eich amser eich hunan gartref.**

**Diolch o galon am gysylltu.**

**Robin Gwyndaf**
**Ffôn: 029 2056 6249.**

# Damwain Bysgota Gwili

Mae'n debyg bydd nifer ohonoch yn gyfarwydd â'r enw. Does dim angen ychwanegu mwy na Gwili. Mae chwe emyn ganddo yn Caneuon Ffydd a mwy yn Llawlyfr Moliant Newydd y Bedyddwyr.

Mewn oes a fu dyma'r Athro John Gwili Jenkins yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor, 1923-36.

Caiff ei ddisgrifio gan y cyn-brifathro John Rice Rowlands fel 'pregethwr a galw mawr amdano, bardd, emynydd, beirniad Eisteddfodol ac Archdderwydd.' Gwelir mwy o fanylion am Gwili yn y gyfrol am Y Coleg Gwyn, Canrif ym Mangor, 1892-1992, gan John Rice Rowlands.

Stori fach sydd gennyf yma am Gwili. Stori drist a dweud y gwir yn 1936. Ond yr hyn sy'n ddiddorol yw'r canlyniadau ac yna mwy nag un gweinidog yn newid maes oherwydd un ddamwain fach yn yr afon Teifi yng Nghastellnewydd Emlyn.

Clywais yr hanes gan fy nhad, y diweddar brifathro Dafydd G. Davies, pan roeddwn i ac eraill o'r teulu yn gofalu amdano yn ystod blwyddyn neu ddwy olaf ei oes hir, 1922-2017.

Bydd rhai ohonoch yn cofio bod ei dad yntau, sef fy nhaid i, Parchg J. Clement Davies, Castellnewydd Emlyn, yn hoff iawn o bysgota yn yr afon Teifi.

Roedd Gwili hefyd yn mwynhau pysgota. Gwelir ei enw yn y llawlyfr defnyddiol *The Baptist Who's Who (1933)* lle cofnodwyd yn Saesneg, *Ints: Poetry: Rec: Fishing* a'i gyfeiriad ar y pryd oedd 38 Heol y Coleg, Bangor.

Rhywbryd yn ystod gwanwyn 1936 roedd fy nhaid a Gwili yn pysgota yn yr afon Teifi. Mae'n debyg bod Gwili wedi llithro a baglu a gwlychu hyd at ei groen. Dywedodd Taid wrth Gwili bod angen iddo roi'r gorau iddi a mynd nôl i'w gartref i sychu a newid dillad. (Roedd ganddo gartref arall yn yr ardal.) Ond mae'n debyg bod Gwili wedi gwrthod, gweld yr ochr ddigri i'w 'fedydd' annisgwyl a dal ati i bysgota.

O fewn diwrnodau roedd Gwili yn anwydog, aeth ei salwch o ddrwg i waeth, daliodd niwmonia a bu farw yn 63 oed ar 16 Mai, 1936.

Dyma frawddeg olaf R. T. Jenkins yn y Bywgraffiadur Cymreig tan 1940. 'Gŵr llon, ar waethaf mwy nag un siom, oedd 'Gwili,' a chwmnïwr diddan, ac ychwanegai ei drwstaneiddiwch mewn manion at hoffter ei gyfeillion ohono.'

Medrwn ond dychmygu y bu'n dymor haf cythryblus yng Ngholeg Bangor ac i'r Eisteddfod Genedlaethol hefyd oherwydd Gwili oedd yr Archdderwydd ers 1932 a'r blynyddol i'w chynnal yn Abergwaun, Sir Benfro.

Bron ganrif yn ôl roedd diddordeb mawr parthed apwyntiadau athrawon a phrifathrawon mewn colegau diwinyddol. A oes modd dychmygu pwyllgor ym Mangor yn trafod olynydd i Gwili? Pwy oedd gweinidog eglwys Tabernacl Yr Ais yn 1936? Mae'r hanes yn ddiddorol gan y Parchg J Williams Hughes yn ei hunangofiant *Troen Yr Yrfa*.

'Y ffôn yn canu; Cwrdd Blynyddol ein coleg ym Mangor: "A ydych yn barod i dderbyn gwahoddiad i olynu Gwili?" Minnau'n dweud na allwn ateb ar unwaith – bod llawer o bethau i'w hystyried.'


J. Gwili Jenkins

'Dwys fu'r ystyried; anodd iawn fu penderfynu; swyddogion y Tabernacl - a'r eglwys - yn gwasgu arnaf i aros; un rhan ohonof yn gogwyddo i'r un cyfeiriad; rhan arall yn tueddu i dderbyn – nid o awydd, ond o ymdeimlad o ddyletswydd yn wyneb ystyriaethau a nodwyd yn yr alwad, er y golygai derbyn y byddai fy nghyflog gan punt a hanner yn llai, a minnau, ar y pryd, yn gyfrifol am addysg tri mab, un ohonynt yn astudio'r Gyfraith yng Ngholeg Aberystwyth.'

Derbyniodd Williams Hughes y gwahoddiad i olynu Gwili. Cyd-ddigwyddiad yw bod teulu fy mam tua'r un adeg wedi penderfynu symud o Stryd Brunswick, Treganna i Fangor. Stori arall yw hanes fy nhad-cu, William Edmund Jones, yn agor siop ddillad i ddynion yn 53 Heol Caergybi, Bangor Uchaf. Trueni iddo farw yn 1952, rhai blynyddoedd cyn fy ngeni a hynny yn hen Ysbyty Dewi Sant Treganna. Erbyn hynny roedd fy mam nôl yng Nghaerdydd!

Ond dychwelwn i 1936 ac yn amlwg roedd angen gweinidog newydd ar Eglwys Y Tabernacl yn Yr Ais. Daeth ef lawr o Aberystwyth i Gaerdydd yn 1937 ac arhosodd yno tan ymddeol yn 1967 yn 72 oed. Gweinidog Eglwys Bethel Aberystwyth am gyfnod byr – dim ond yn 1936 symudodd e o Seion Cwmaman ger Aberdâr i Aberystwyth! Wele'r Parchg D. Myrddin Davies. Ac o fewn llai na blwyddyn roedd angen gweinidog newydd yn Stryd y Popty Aberystwyth! Roedd hyn i gyd o ganlyniad i Gwili yn baglu yn yr afon Teifi.

Mae hwn yn fyd digon diddorol, os digwydd i chi fod yn weinidog eich hun, neu yn fab neu ferch y mans neu ficerdy. Os credwch fod Duw neu eglwys yn galw yna gall droi allan i fod yn rhyw fath o gêm 'cadeiriau cerddorol symudol!'

Dim ond unwaith y symudodd fy nhaid fel gweinidog a hynny yn 1922 o ardal Pwllheli i Eglwys Y Graig, Castellnewydd Emlyn lle arhosodd e tan ei farw yn 1982. Ond cafodd alwadau i Lerpwl, Caersalem Newydd, Treboeth, Abertawe a Moreia neu Hebron Dowlais. Beth tybed basai hanes fy nhad a fy hanes i tasai gweinidog Y Graig wedi derbyn hyd yn oed un o'r tri gwahoddiad?

Pe tasai Gwili heb faglu yn yr afon wrth bysgota basai *Troen Yr Yrfa* Williams Hughes wedi bod yn wahanol a gyrfa D. Myrddin Davies a phwy sy'n gwybod pwy ddaeth yn Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol fel olynydd i Gwili? Difyr yw'r hen hanes, 84 o flynyddoedd yn ôl…

*Gwilym Dafydd*

# Ryseitiau Merch y Ddinas



## Mwyara

Lowri Haf Cooke

A hithe'n ddiwedd mis Awst mae'r Hydref ar hast i'n hatgoffa fod newid ar droed. Mae'r stormydd geirwon yn orlawn o arwyddion; ymhen dim bydd rhaid diosg fy ffrogiau haf, a gwisgo sanau yn lle sandalau. Ond tan ddiwedd mis Medi, mae'n 'Lowri Haf o hyd' yn fy myd bach i yng Nghaerdydd. Wrth grwydro'r brifddinas, caf bleser digymar o ymgolli ym myd natur. Darganfuais, ym mis Gorffennaf 'draeth' Y Sblot - hafan o loÿnnod byw a blodau glas-yr-ŷd. Rhwng y brics diwydiannol a'r 'llwybr' arfordirol, ffeindiais hagrwch a harddwch pur. Ac yn wythnos olaf Awst es am dro i Fynydd y Garth, a hynny am y tro cyntaf erioed. Roedd yr olygfa o'r copa yn rhyfeddol, a dweud y lleiaf, o lannau Morgannwg yr holl ffordd fyny i'r Bannau. Mor brin yw awyrennau bellach ges i sioc i weld 747 – roedd mor agos at y copa gallen i fod wedi cosi ei fola, ond yn hytrach, es i fwyara.





Mae mwyar duon i'w gweld ym mhobman ar hyn o bryd, o'r lonydd cefn i gornel y stryd. Ai fi sy'n dychmygu neu a yw effaith y 'cyfnod clo' ar fyd natur yn golygu fod 'na fwy nag erioed yng Nghaerdydd? Yn blentyn, mi gofiaf hel mwyar gyda Mam a'm chwioryddd ar yr hen reilffordd tu ôl i Heol Tydraw. Tai sy' 'na nawr, ers blynyddoedd mawr, ond wrth ddilyn fy nhrwyn gwelaf ffrwydrad o'r mwyar duon. Roedden nhw'n aeddfed yn barod yng nghanol Gorffennaf ar draeth deheuol y Sblot. Ond yng ngogledd Caerdydd roedden nhw'n binc ac yn wyrdd, gan awgrymu cynhaeaf hwyrach yno, ym mis Medi.



Y rysáit mwyaf amlwg – ac andros o hawdd – yw'r crymbl tymhorol, sy'n ffefryn gen i ers yn blentyn. Neu beth am goctel jin mwyar fydd yn berffaith ym mis Medi, wrth gyfuno elfennau chwerwfelys y ffrwythau cyfoethog gyda surni leim a surop syml? Pigwch y ffrwythau nawr (ie, nawr – peidiwch ag oedi!), a'u golchi cyn eu gweini, neu eu rhewi i bara trwy'r gaeaf.

**Crymbl Afal a Mwyar**

3-4 Afal Coginio Canolig
2 Llond Llaw o Fwyar Duon
2 Llwy De o Siwgwr Demarera
50g Blawd Plaen
50g Ceirch
50g Siwgwr Demarera
50g Menyn Heb Halen

Yn gyntaf, gosodwch y popty ymlaen ar dymheredd o 180 gradd Selsiws, ac estynnwch ddesgyl popty maint canolig. Pliciwch groen yr afalau, a gwaredwch y croen a'r hadau cyn eu torri'n ddarnau man. Gosodwch y darnau afal yn y ddesgyl popty, yna cyfunwch â'r mwyar duon, cyn taenu dwy lwy de o siwgwr demarera drostynt.

Estynnwch glorian, a phwyswch y ceirch, blawd plaen a siwgwr demarera a chyfunwch y cynhwysion sych hynny'n dda mewn powlen. Yna pwyswch y menyn yn y glorian cyn ei dorri'n ddarnau mân. Cyfunwch y darnau menyn gyda'r cynhwysion sych gyda'ch dwylo tan y bydd y gymysgedd yn efelychu 'briwsion bara' lliw brown.

Taenwch y 'crymbl' briwsionllyd dros y ffrwythau yn y ddesgyl, gan ofalu i orchuddio'r arwyneb i gyd. Gosodwch yn y popty am o leiaf hanner awr – neu gadewch am hyd at awr i'r crymbl dywyllu a throi'n fwy crisb, ac i'r ffrwythau fygwth ffrwydro islaw! Gadewch i'r crymbl oeri, cyn ei weini â chwstard, hufen neu hufen ia.

**Coctel Mwy Mwy MWYAR!**

Llond Llaw o Fwyar Duon
1 Mesur Jin Sych Llundain
1 Mesur Surop Syml
Sudd 1 Leim
Rhew

Yn gyntaf, estynnwch *'shaker'* coctel, ac arllwyswch y mwyar duon, sudd leim a surop syml (sef cymysgedd cyfartal o siwgwr a dŵr – e.e. 100g yr un - wedi'i fudferwi am 10 munud mewn sosban cyn ei oeri, a'i osod yn yr oergell mewn potel) iddo dros rew. Estynnwch lwy bren a throellwch y gymysgedd yn dda i ryddhau suddoedd y mwyar duon. Yna, ychwanegwch y Jin Sych Llundain a gosod caead ar y *'shaker'*. Cymysgwch yn dda am hyd at funud, yna arllwyswch y cyfan i'ch hoff wydr. Ychwanegwch welltyn ac / neu ymbarél, i fochel rhag y glaw!